

ECO'R WYDDFA

RHIF 371

TACHWEDD

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Wal ddringo Newydd yn Ysgol Dolbadarn
- Ymgyrch 'Plentyn y Nadolig'
- Hen Luniau Llanberis
- Capten Tîm Cymru – o Fethel!

ARIAN I'R ARDAL?



PLASTRWR GORAU PRYDAIN



Yr wythnos yma mynychodd tri Prentis Plastro Uned Hyfforddiant Coleg Menai ac un Prentis Gwaith Coed Gystadleuaeth Genedlaethol SkillBuild yng Ngholeg South Lanarkshire yn yr Alban.

Wynobodd y pedwar gystadleuaeth galed a thasgau heriol ond, ar ddiwedd tri diwrnod caled o gystadlu, cyhoeddwyd Phil o Lanberis yn enillydd y Fedal Aur yn y cinio gwobrwyo yn stadiwm Hampden Park.

Mae Phil, sy'n 23 mlwydd oed, yn Brentis hefo Uned Hyfforddi Coleg Menai ac yn cael ei gyflogi gan Contractwyr Plastro Mark Phillips.

Dywedodd Phil ar y diwrnod:

'Dwi'n hapus ac wedi cael sioc i ennill medal yn y ffeinal. Dwi wedi mwynhau cymryd rhan yn y gystadleuaeth Skillbuild eleni, mae wedi bod yn waith caled ond yn werth ei wneud. Byddwn yn argymhell cymryd rhan i unrhyw un sy'n

ystyried cystadlu flwyddyn nesaf. Hoffwn ddiolch hefyd i fy nhwrtoriaid Plastro a Chefnogi Dysgu yn y coleg am eu holl help.'

Yn oagystal â chael Aur mewn Plastro, cafodd Phil ei enwi fel Enillydd Tlws Frank Eaton sy'n cael ei roi er cof am Frank Eaton, cyn brentis a ddaeth yn Brif Weithredwr a Chadeirydd Barratt. Mae'r Tlws yn mynd i'r prentis sydd wadi dangos perfformiad ac agwedd rhagorol yn ystod y gystadleuaeth.

Ychwanegodd Phil: 'Dwi wrth fy modd fy mod i wedi ennill Aur mewn Plastro ac wedi cael Tlws Frank Eaton.'

Bydd yr enillwyr o'r rownd derfynol yn mynd ymlaen i gystadlu i fod y gorau yn y byd drwy gymryd rhan yng nghystadleuaeth rhyngwladol WorldSkills sy'n cael ei chynnal pob dwy flynedd. Bydd y gystadleuaeth WorldSkills nesaf yn digwydd yn Llundain yn 2011.

Gyda'r newyddion yn ystod yr wythnosau diwethaf mai 1% o gynnydd gaiff Gwynedd gogyfer â'u gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, mae'n amlwg fod blynyddoedd go llwm yn wynebu trethdalwyr y fro.

Er hynny, daeth llygedyn o oleuni o ganlyniad i arolwg a wnaethpwyd ar ran Amgueddfa Cymru. Roedd yr arolwg yn dangos pwysigrwydd Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis i'r economi leol. Er gwaethaf y dirwasgiad diweddar, darganfuwyd fod y gwariant yn lleol gan ymwelwyr â'r amgueddfa yn agos i £2.7 miliwn yn flynyddol. Ac y mae'r gwariant hwn wedi ei rannu, nid yn unig o fewn eiddo'r amgueddfa ei hun, ond yng ngwestai, siopau, caffis a busnesau eraill o fewn yr ardal.

Mae'r amgueddfa hefyd yn gwario ar gyflogau staff ac ar brynu nwyddau a gwasanaethau'n lleol. Yn anuniongyrchol, amcangyfrifir fod y gwariant hwnnw yn cyfateb i gynnal 114 o swyddi. Ac y mae'r dirwasgiad hefyd wedi golygu fod llawer o bobl wedi penderfynu peidio mentro dramor i dreulio eu gwyliau yn ystod eleni. Y canlyniad fu i niferoedd dreulio gwyliau yng ngwahanol wledydd Prydain, ac yn sicr mae'r fro hon wedi elwa ar hynny'n ariannol.

Mae atyniadau achlysurol a gynhelir yn y fro hefyd yn denu niferoedd helaeth o bobl yma. Mae Ras yr Wyddfa yn naturiol

yn atyniad sy'n denu, nid yn unig y cystadleuwyr eu hunain, ond eu teuluoedd hefyd, a llawer ohonynt yn treulio deuddydd neu dri yn y fro – a gwario.

Y mis diwethaf cynhaliwyd Marathon Eryri, ac unwaith eto, heidiodd rhedwyr, eu teuluoedd a'u cefnogwyr i'r fro. Ac yn sicr, mae penderfyniad y trefnwyr dros y tair blynedd diwethaf i gynnal y ras ar ddydd Sadwrn yn hytrach na'r Sul, wedi golygu fod cyfle i bobl aros o nos Wener hyd bawn Sul o fewn yr ardal – a gwario. Ac er mai er budd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y cynhelir y Farathon, mae nifer o fudiadau a sefydliadau lleol yn elwa'n ariannol o gymorthdaliadau yn sgil y ras.

Mae'r arian a glustnodwyd gan First Hydro - £50,000 – sef swm a dalwyd gan Warner Brothers ar achlysur y ffilmio diweddar o fewn hen chwarel Dinorwig hefyd i'w wario yng Ngwynedd. Y dealltwriaeth yw fod y cyfanswm i'w rannu o fewn yr hen ardaloedd chwarelyddol, ac mai'r cynghorau cymuned lleol fydd yn gwneud ceisiadau am arian i sefydlu neu i hybu gwahanol brosiectau lleol. Mae cyfle yma i dri chynghor y dyffryn: Llanberis, Llanddeiniolen a Llanrug, gydweithio ar un prosiect gwerth chweil yn hytrach na chael pob cynghor yn chwilio am brosiectau llai o fewn eu terfynau. Beth am syniadau?

ECO'R WYDDFA

RHIF 371

TACHWEDD 2009

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL Tachwedd 15ed

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Tachwedd 26ain
Dyddiad Gosod

Nos WENER Tachwedd 20fed,
6:30yh Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Tachwedd	Sul 15 Tachwedd	Sul 22 Tachwedd	Iau 26 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677 438

Llythyr

LLUNIAU MISTAR URDD

Annwyl Olygydd
Rwyf ar hyn o bryd yn paratoui
llyfr sy'n seiliedig ar fy
ymwneud â'r Urdd Yfi a Mistar
Urdd a'r Cwmni Da gyda'r prif
ffocws ar gofnodi stori ymgyrch
Mistar Urdd. Cyhoeddir y
gyfrol yn ystod mis Ebrill 2010,
mewn da bryd ar gyfer
Eisteddfod Genedlaethol yr
Urdd Ceredigion a gynhelir y
flwyddyn nesaf yn
Llanerchaeron.

Byddwn yn gwerthfawrogi
derbyn unrhyw luniau gan eich
darllenwyr sydd ar gael yn
ymwneud ag ymgyrch Mistar
Urdd gyda'r posibilrwydd o'u
defnyddio yn y gyfrol. Mae
deunydd sy'n perthyn i'r cyfnod
o 1976 i 1980 o ddiddordeb
arbennig ond gall lluniau mwy
diweddar hefyd fod yn
ddefnyddiol. Byddai disgrifiad
byr o'r lluniau yn gymorth.

Mae angen i'r lluniau
gyrraedd y cyhoeddwr cyn mis
Rhagfyr 2009 naill ar ar eost
ylolfa@ylolfa.com neu drwy'r
post at: Y Golygydd, Y Lolfa,
Talybont, Ceredigion SY24
5HE.

Diolch ymlaen llaw. Hwyl.

WYNNE MELVILLE JONES
Llanfihangel Genau'r Glyn

CÂN I GYMRU

Annwyl Olygydd,
Mae cyfnod cyfansoddi Cân i
Gymru 2010 wedi cyrraedd ac
eto eleni rydym yn chwilio am
gyfansoddwyr mwyaf addawol
Cymru. Llynedd cawsom
ymateb rhagorol, gyda nifer o
dalentau newydd yn ymgeisio
am y brif wobwr o ddeng mil o
bunau.

Byddwn yn ddiolchgar iawn
pe byddech chi'n ein helpu ni i
ledu'r gair fod y cyfnod
ymgeisio eleni yn rhedeg o 15
Hydref hyd 11 Rhagfyr. Rydym
yn croesawu caneuon
gwreiddiol o bob math, gan
obeithio y bydd diddordeb gan
rai o'r darllenwyr i roi cynnig
arni.

Dyma'r gwobrau ariannol
sylweddol sydd ar gael i'r sawl

sy'n llwyddiannus:

- Cyntaf: £10,000
 - Ail: £2,000
 - Trydydd: £1,500
 - Gwobr arbennig (rhodd y
rheithgor): £500
 - Deg gwobr o £100 am
gyrraedd rhestr fer estynedig.
- Am fwy o wybodaeth,
rheolau llawn y gystadleuaeth a
ffurflen gais ewch i wefan
s4c.co.uk; canigymru neu
cysylltwch gyda'r tîm
cynhyrchu yn uniongyrchol.
E-bost canigymru2010@the
popfactory.com.
Rhif ffôn: 01443 688530
Gyda diolch

FFION HUMPHRIES
Ar ran Avanti

SAFON TERMAU CYMRAEG

Annwyl Olygydd
Beth yw 'climatic oscillation'
neu 'anthropogenic emissions'
yn Gymraeg?

Mae'r newid hinsawdd yn
dipyn o bwnc llosg ar hyn o
bryd fel y gwyddoch. Er mwyn
ymateb i'r galw cynyddol am
dermau Cymraeg yn y maes bu
Uned Safoni Termau a
Chyfieithu Bwrdd yr Iaith
Gymraeg yn cydweithio â
Gwasanaeth Cyfieithu
Llywodraeth y Cynulliad ac
arbenigwyr pwnc ar brosiect
safoni termau. Roedd hyn hefyd
yn rhan o gyfraniad y Bwrdd at
raglen waith Gweithgor Iaith
Gymraeg y Sector
Amgylcheddol.

Mae modd gweld atebion i'r
cwestiwn uchod a gweddill y
termau newid hinsawdd ar ein
gwefan o ddilyn y ddolen hon:
Termau Newid Hinsawdd.

Mae'r prosiect termau newid
hinsawdd yn un o nifer o
brosiectau safoni termau mewn
meysydd arbenigol y mae'r
Bwrdd wedi ymgymryd â nhw
dros y blyneddoddd. Mae gan y
Bwrdd Dîm Safoni Termau, sy'n
banel o arbenigwyr iaith, i'w
gynorthwyo â'r gwaith o safoni
termau. Mae'r Bwrdd wedyn yn
cyhoeddi'r termau wedi'u safoni
yn y Gronfa Genedlaethol o
Dermau ar ei wefan: Cronfa
Data Genedlaethol o Dermau

Os oes sylwadau gennych am
y termau newid hinsawdd yn y
rhestr neu os ydych yn dymuno
cynnig termau eraill sydd angen
eu safoni yn y maes hwn
cysylltwch ag Eleri James
(eleri.james@byig-wlb.org.uk).

Mae croeso hefyd i chi
gysylltu i awgrymu syniadau am
feysydd pwnc eraill y mae angen
bwrw ati i safoni termau
Cymraeg ynddynt. Cysylltwch
hefyd os oes gennych gwestiwn

am derminoleg yr hoffech i Dîm
Safoni Termau'r Bwrdd ei
drafod.

Gobeithio bydd y termau hyn
o gymorth i chi wrth eich
gwaith.

Yr eiddoch yn gywir

LOWRI W. WILLIAMS
Arweinydd Uned Safoni
Termau a Chyfieithu

FFAIR GREFFTAU DYFFRYN OGWEN

6 Hendurnpike
Tregarth
LL57 4NN

Annwyl Olygydd
Hoffwn hysbysu eich
darllenwyr am y digwyddiad
canlynol fydd yn cael ei gynnal
yn Nyffryn Ogwen. Bydd Ffair
Grefftai yn cael ei chynnal yn
Neuadd Ogwen ar y Stryd Fawr
ym Methesda ar ddydd Sadwrn,
28 Tachwedd, rhwng 1.30 a 4.30.

Bydd hwn yn gyfle gwyh i
wneud eich siopa Dolig. Bydd y
Ffair Grefftai yn cynnwys ystod
eang o stondinau yn gwerthu
gwahanol grefftai, gan gynnwys
gemwaith, tecstilau, cacennau
ayyb. Bydd hwn yn gyfle
arbennig i weld cynnyrch y
crefftwyr lleol talentog sydd
gennym yng ngogledd Cymru,
yn unigolion sydd wedi hen
sefydlu, a phobl ifanc (a hŷn)
sydd yn cymryd rhan mewn
ffair o'r fath am y tro cyntaf.

Bydd gwneud eich siopa
Dolig yn y Ffair Grefftai yn
sicrhau bod y cynnyrch rydych
yn ei brynu wedi ei wneud yn
lleol, o'r safon uchaf ac yn
unigryw. Felly, os ydych chi am
newid o wneud eich siopa Dolig
ar y Stryd Fawr, dewch draw i'r
Ffair Grefftai.

Dewch yn llw. Mae croeso
cynnes i bawb

Llawer o ddiolch

MEGAN JONES

ECO'R WYDDFA

DRWY'R POST

I dderbyn ECO'R
WYDDFA

i'ch drws bob mis
cysylltwch ag
Olwen Hughes.

Mae ei manylion cyswllt
i'w cael ar y chwith.

Mae angen mwy
o help i osod a
golygu'r Eco.
Allwch chi
helpu plis?

CYFARFOD 'EFE'

Ar derfyn blwyddyn gyntaf o weithgarwch bydd Cynllun Efe yn cynnal cyfarfod arbennig i gyflwyno adroddiad am waith y flwyddyn i'r eglwysi a'r mudiadau a'r sefydliadau a'r unigolion sydd yn cefnogi'r gwaith cenhadol hwn ymhlith ieuenctid a phlant ym mro'r Eco.

Sefydlwyd yr elusen Gristnogol hon er mwyn gwasanaethu eglwysi bro'r Eco. A thros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r genhadaeth hon a'i gweithiwr ieuenctid, Andrew

Settatree, wedi cynnal amrywiol gyfarfodydd yn yr eglwysi a'r ysgolion, ac o fewn y gymuned leol.

Cynhelir y cyfarfod blynyddol hwn yn festri capel Cysegr, Bethel, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 18.

Estynnir gwahoddiad i'r eglwysi anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod er mwyn clywed am yr hyn a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf a beth y gobeithir ei wneud dros y misoedd nesaf.

CLYTWEITHWYR PERIS YN DERBYN GRANT



Yr Aelod Seneddol, Mr Hywel Williams yn cyflwyno'r sic i aelodau o'r Clytweithwyr.

Mae Clytweithwyr Peris wedi derbyn grant o £4,181.00 ar gyfer byrddau gwir angenrheidiol a chyfarpar oddi wrth y rhaglen loteri 'Arian i Bawb Cymru'.

'Bydd y cyfarpar newydd yn ein galluogi i orffen ein cwiltiau mewn ffordd mwy proffesiynol a bydd y byrddau newydd yn rhoi mwy o le i ni wneud ein gwaith. Mae'r grŵp yn gwneud cwiltiau i'w rafflo ar gyfer elusennau, a'r elusen eleni yw Cancr y Fron

Cymru.

Mae'r grŵp yn cyfarfod bob prynhawn Dydd Llun yn Nant Peris.'

Mae Gwenda Roberts, arweinydd y grŵp, wrth ei bodd gyda'r grant ac yn dweud 'Bydd yr arian yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n grŵp. Roedd y broses yn sydyn a hawdd - Buaswn yn bendant yn argymhell y rhaglen grantiau Arian i Bawb Cymru.'

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

CYWILYDD!!



Oes angen dweud mwy?

PLENTYN Y NADOLIG

Mae taflenni ymgyrch Plentyn y Nadolig (*Operation Christmas Child*) wedi cyrraedd, a byddwn yn casglu boscus esgidiau'n llawn o anrhegion i blant anghenus mewn gwledydd tramor eto eleni. Gobeithir cael y bocsys erbyn yr wythnos gyntaf neu'r ail wythnos yn Nhachwedd.

Mae taflenni ar gael gan y Parchg John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis (01286 872390) i bwy bynnag sydd am baratoi bocs. Mae'r daflen yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer beth i'w roi yn y bocs, a beth i beidio ei roi ynddo.

RHODDION

£50: Er cof am Goronwy Jones, Cilan, Bethel.

£20: Edgar a Pat Jones, Swyddfa'r Post, Llanrug.

£10: Nancy Jones, Y Garnedd, Ffordd yr Orsaf, Llanberis; Olwen a Gwynedd, 10 Maes

Derlwyn, Llanberis; Hefina Jones, 2 Blaen Ddôl, Llanberis.

£5: Aled a Llinos, Llanfairpwll (1 Stryd Tomos, Llanberis, gynt); Mrs Helena Munro, 1 Penrallt, Llanrug; Bron y Gaer, Penisarwaun.


Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

CHWILOTA

ARLUNYDD O LERPWL - A LLANBERIS



Yn ôl Cyfrifiad 1861, roedd tri o bobl yn byw yn rhif 2 Bryn Derw, Llanberis: William Joseph Bond, ei wraig, Jane Douglas, a'i dad yng nghyfraith, Owen Ellis. Mae William Bond yn disgrifio'i hun fel arlunydd tirluniau, genedigol o Lerpwl, ond mae ei wraig a'i dad yng nghyfraith yn nodi mai Llanbeblig oedd eu plwyf genedigol. Mae Owen Ellis yn disgrifio'i hun fel 'retired ironmonger', 69 mlwydd oed.

Pwy tybed oedd y teulu hwn, ac am ba hyd y buont â chysylltiadau â Llanberis?

Mae'r wybodaeth fwyaf cryno am yrfa William Joseph Bond i'w gael yn llyfr H.C. Marillier *The Liverpool School of Painters*, ac yr oedd Bond yn parhau'n fyw pan gyhoeddwyd y gyfrol yn 1904. Er hynny, nodir iddo fyw gydol ei oes yn Lerpwl, ac mai yno bron yn ddieithriad y byddai'n arddangos ei waith. Cafodd ei brentisio i Thomas Griffiths, ac yr oedd yn Aelod o Academi Lerpwl erbyn 1859. Tirluniau a golygfeydd arfordirol yw ei brif themâu, a'r rheini wedi eu lleoli mewn mannau oedd yn hawdd cyrraedd atynt o Lerpwl.

Ond mae'r ffaith ei fod yn byw yn Llanberis yn 1861, a bod ei wraig hefyd yn enedigol o blwyf Llanbeblig, yn awgrymu fod ganddo gysylltiadau agosach â'r fro nac ymweliadau yn unig.

Hyd yma, prin yw'r wybodaeth sydd gen i am deulu ei wraig. Methais a chael cofnod o'i bedydd ym mhlwyf Llanbeblig, ond erbyn 1841 roedd hi a'i thad gwedd yn byw yn Love Lane, Caernarfon. Mae Owen Ellis bryd hynny yn disgrifio'i hun fel marsiandiwr. Does dim sôn am Jane yng Nghaernarfon yn 1851, ond mae

Owen yn lojwr mewn tŷ yn Chapel Street, ac yn disgrifio'i hun fel 'ironmonger'. Yr hyn sy'n ddirgelwch ar hyn o bryd yw pam fod Jane, yn ferch ifanc ugain oed, yn ymwelydd â chartref teulu o'r Alban oedd yn byw yn Cote House, Gisburn (rhwng Clitheroe a Skipton) yn Swydd Efrog. Ac ar gyfrifiad 1851 am y lle hwnnw, roedd y penteulu yn feddyg, a Jane yn cynnal ei hun yn ariannol. A lojwr oedd ei thad bryd hynny mewn tŷ cyffredin yng Nghaernarfon!

Daw'r wybodaeth nesaf amdani ar achlysur ei phriodas â William Joseph Bond yn y Gadeirlan ym Mangor ym mis Gorffennaf 1860. Roedd y ddau wedi derbyn digon o addysg i fedru arwyddo'u henwau yn ddiraffferth yn ôl y llawysgrif. Mae ei gŵr yn disgrifio'i hun fel arlunydd. Yr hyn sy'n taro'n od, o gofio mai 'ironmonger' a lojwr oedd Owen Ellis naw mlynedd ynghynt, yw'r ffaith ei fod yn cael ei ddisgrifio ar gofrestr priodasau'r Gadeirlan fel bonheddwr (*gentleman*). Mae enwau'r tystion ar achlysur y briodas hefyd yn ddieithr: Hugh Beaton Macalpine a Maria de Preville. Mae'n debygol i'r pâr priod symud i Lanberis yn fuan ar ôl priodi. A dyna'r cyfan - hyd yma - a wyddom amdanynt.

Un o luniau enwocaf yr arlunydd yw 'Spring Morning', ond gan fod llun arall gyda'r testun 'Morning in Spring' o'i eiddo hefyd, maent yn achosi penbleth! Mae'r naill wedi ei ddyddio 1856 a'r llall - sydd fwy neu lai yr un llun - wedi ei arwyddo ganddo gyda'r disgrifiad Glan Helen, Caernarfon, Mai 1863. O astudio'r llun yn fanwl, mae posibilrwydd mai darlun ydyw o afon Saint rhywle yng

"WELSH LANDSCAPE WITH BRIDGE"

Ai Crib Moel Eilio yw hon?



ngyhffiniau Parc Caernarfon - ond nad oedd y parc yn bod bryd hynny, wrth gwrs. Mae Glan Helen ei hun heb fod ymhell o dafarn yr Eagles yng Nghaernarfon, a byddai'r olygfa o afon Saint gyferbyn â'r tŷ hwnnw yn dangos ardal ddiwydiannol yn hytrach na'r olygfa wledig a geir yn Spring Morning.

Mae ganddo lun arall wedi ei ddyddio 1863 yn dwyn y testun 'Welsh Landscape with Bridge'. Mae'n ymddangos mai tirlun ydyw o ardal Cwm Brwynog yn edrych draw i gyfeiriad Cwm Dwythwch a Moel Eilio. Y bont yw'r un sy'n croesi afon Arddu.

Mae'r ddau lun yn awgrymu fod William Joseph Bond yn adnabod yr ardal yn bur dda, ac o bosib yn parhau i fyw yn Llanberis rhwng cyfnod ei briodas yn 1860 a dyddiadau peintio'r lluniau yn 1863.

Gyda llaw, enw llawn yr arlunydd oedd William Joseph Julius Caesar Bond, ac yr oedd ei gyfeillion a'r cyhoedd oedd yn cyrchu arddangosfeydd o'i luniau yn Lerpwl yn ei adnabod fel 'Alphabet' Bond.

Bydd angen cryn dipyn o waith ymchwil pellach i ddarganfod mwy am gysylltiadau teuluol yr arlunydd hwn â Llanberis a Chaernarfon.

Siopau Deiniolen

Pe bai rhywun yn mynd i'r draffferth o astudio'r hysbysebion yn ôl-rifynnau'r 'Eco', mae'n siŵr mai un ffactor amlwg fyddai'r dirywiad mewn hysbysebu siopau pentref. Faint tybed sydd wedi cau o fewn oes y papur hwn?

Anfonodd Miss Mair Foulkes, Penisarwaun, restrau o siopau Deiniolen sy'n ymestyn yn ôl ganrif o amser. Cafodd gymorth Mrs Jennie Williams, Rhydfadog, i gwblhau'r rhestr, gan mai un o'r Fachwen oedd hi yn wreiddiol.

Yn ôl trefn yr oes, roedd llawer o'r siopau yn cario enwau Saesneg: mae'n debyg fod y perchnogion yn credu fod rhoi enw felly ar eu siop yn rhoi rhyw statws arbennig iddynt fel busnes!

Ymddiheuraf ymlaen llaw os yw'r drefn yn anghywir: fy mai i yw hynny, nid y ddwy fu'n casglu'r wybodaeth.

Ashton House, Ironmonger; Siop Groser John Moses Griffith, Siop Lizzie Jones, Siop Harry Thomas, Gwalia House - yn gwerthu dillad a defnyddiau; Siop Cigydd Morris Jones; Siop Papurau Newyddion Annie Williams (Annie Tros'rafon); Siop Manchester House - R. Morris, Crydd; Siop Groser

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Ois byddwch yn cysylltu a swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud a chynhyrchion perodedig o Age Concern Enterprises Limited (ACEnt). Mae ACEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

RHEILFFORDD LLYN PADARN

NEWYDD AR GYFER 2009

HELFA CALAN GAELAF
Hanner tymor yr Hydref



Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwarchod a darganfod gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11eg y bore tan 2.45 y prynhawn



Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 31.10.09)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anrhegion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 6ed, 12fed/13eg, 19eg/20fed
Oedolion a phlant £6.50
(plant o dan dair oed £3.00)

Rhaid archebu o flaen llaw



Ffoulke Williams (Ffowc Bryn Gro); Siop O. Williams, Bryn Deiniol – dillad; Siop Sammy Hughes, Regent House – dillad eto; Siop John Llewelyn Jones – dipyn o bopeth; Siop Robert a Hannah Roberts – yn gwerthu dillad yn Bank House; Siop Harry Ifor, Barbwr; Siop Sally Wellington (siop sglodion); Siop Sinc Mrs Jones – da-da ac ati; Siop Mrs Thomas, London House; Siop T. Hughes, Fferyllydd; Siop Groser, Caxton; Siop John Thomas; Siop Barbwr – Fellows; Siop Thomas Jones, Bristol House – esgidiau; Siop Vaynol House – teiliwr; Siop Coco Room, Albert House, yn cael ei chadw gan Hugh bach a Maggie Rhiwen, ac yn gwerthu confectionary a da-da; Birmingham House, a Griffith Hughes, Rhiwen yn gwerthu dillad merch; Siop Griffith Evans, cigydd; Wellington Inn; Bee Hive, sef siop groser H. Closs Parry; Siop Teiliwr Ellis Jones; Swyddfa'r Post (Mrs Lewis); Bull Inn (Richard Roberts); Siop Groser Polly Owen; Siop Cigydd W. Ellis, Mona House. Yn y Rhes fawr roedd y Co-op; siop Maggie Rowlands (confectionary); Siop Seth (groser) a Becws O. P. Rowlands.

Mae gwybodaeth fwy bersonol am rai o'r siopau. Mr a Mrs Thomas oedd yn cadw Central Stores, groser oedd hefyd yn gwerthu blawdia a bwyd ieir. Symudodd y teulu i Borthmadog. Daeth Beryl, chwaer Tom Dempster ac Owie Jones, Terrace, Clwt y Bont yno wedyn. Rhwng y Fferyllydd a Caxton House roedd siop groser John Owen, gŵr o Fôn. Bu ei ferch, Olive yn nyrsio yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Wedi'r Ail Ryfel Byd, agorwyd siop drydanol – gwerthu a thrwsio radio ac yn y blaen – gan Stanley Jones. Roedd gan Lewis Thomas siop sglodion am gyfnod y drws nesaf ond un i Mona House. Ac yn Isallt, bu Annie ac Emily yn cadw siop da-da. Roedd Dafydd Hughes, Gwalia House yn frawd iddynt. Byddai'n ddiddorol cael

lluniau o rai o'r siopau hyn neu eu perchnogion – a mwy o wybodaeth amdanynt. Mae'n siŵr fod gwahanol ddarllenwyr yn cofio cyfnodau gwahanol o gadw'r siopau. A beth am siopau pentrefi eraill y fro? Anfonwch wybodaeth a lluniau, neu unrhyw friwsionyn o ddiddordeb ynglŷn â'r gwahanol fusnesau hyn.

Cymanfa Ganu Ffrainc

Mae'r wybodaeth am y Gymanfa a gynhaliwyd yn Ffrainc ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi ennyn cryn ymateb, gyda thair o alwadau ffôn eisoes yn cynnig gwybodaeth am rai o'r milwyr a enwir yn y rhaglen. Gyda diolch i'r rhai sydd wedi cysylltu. Gobeithiaf ddidol yr wybodaeth yn ystod y mis nesaf a'i gynnwys yn rhifyn Rhagfyr.

Hanes Diweddar

Soniais y mis diwethaf am wahanol eitemau o hanes diweddar; yn enwedig digwyddiadau yn y fro ers yr Ail Ryfel Byd. Un cais a ddaeth i'm sylw yn ddiweddar oedd hanes ymweliad Laurel a Hardy â sinema Deiniolen. Oes rhywrai o'r darllenwyr yn cofio'r ymweliad hwnnw? Y dyddiad, gyda llaw, oedd 20fed o fis Gorffennaf 1952, ac yr oedd yr ymweliad yn rhan o daith gan y ddau gomedïwr poblogaidd o amgylch Prydain.

Arolwg Ysgolion

Mae'n debyg mai bwgan mawr

llywodraethwyr ac athrawon heddiw yw ymweliad yr arolygwyr. Ond nid peth dieithr mo hyn. Yn ystod y mis cefais weld tystysgrif wedi ei fframio yn tystio i arolygwr ymweld ag Ysgol Glanmoelyn, Llanrug yn 1878. Mae'r dystysgrif wedi ei fframio, ac yn anffodus, nid oedd yn bosibl atgynychu llun ohoni.

Mae'r dystysgrif yn tystio i John Owen gael arolwg gan un o Arolygwyr ei Mawrhydi, ac iddo lwyddo yn 'Standard IV' ar ddydd Mawrth, 19eg o fis Tachwedd 1878. Arwyddwyd y dystysgrif gan J. Eiddon Jones, Clerc Bwrdd Ysgol Llanrug.

John Eiddon Jones oedd gweinidog Capel Mawr, Llanrug ar y pryd, ac y mae braidd yn ddiethr ei weld yn arwyddo tystysgrif i un oedd yn gweithio mewn ysgol eglwysig. Ond arwyddo ar ran y Bwrdd Ysgol roedd o, sef yr awdurdod oedd yn gofalu am ddwy ysgol Llanrug bryd hynny, sef Glanmoelyn a Bryneryr.

Diolch i Arwyn Roberts am gael benthg y dystysgrif. Ac os oes gan unrhyw un arall o'r darllenwyr lun neu ddogfen ddiddorol yn ymwneud â hanes y fro, neu â gwybodaeth neu ymholiad i'w wneud, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

COELCERTHI

Mis Chwefror oedd yr amser adref gynt i danio'r eithin, ambell berth a grug y rhostir, - wedi stydio ffordd y gwynt; cyn i'r adar baru a theimlo sug 'rhen ysfa i blethu nyth neu grafu pant i godi teulu 'eto'r flwyddyn hon', a chyn i irder gwanwyn daro tant a chof am heth a hirlwm adael – bron - hyn oedd hwyl...

Ni fu defod Guto Ffowc, cawodydd tân ar ddiasbedain bang - na hen hen hanes y wleidyddol row cyn agor Senedd – a'r Babyddol giang imi'n ddim! Ac yn y bôn – Duw a wŷr, dim ond ffyliaid sy'n dathlu methiant llwyr!

NORMAN CLOSS (FACH-WEN)

LLYFRAU NEWYDD GAN WASG CARREG GWALCH

Sêr Nadolig (addas Emily Huws)
Pris: £4.95

Bod yn seren Nadolig, dyna uchelgais pawb.

Mae ysgol berfformio Plas Dolwen yn berwi o hwyl yr ŵyl ac mae Erin a'i ffrindiau'n ymarfer yn galed ar gyfer y cyngerdd Nadolig.

Gan eu bod yn awyddus iawn i wneud argraff dda ar eu hoff athro, Huwcyn ap Siôn Ifan, maen nhw'n trefnu rhywbeth arbennig ar ei gyfer.

Ond yna, daw newyddion trychinebus – does dim gobaith y bydd o'n gallu dod i'r cyngerdd!

Tybed a all pawb gyd-dynnu er mwyn i Huwcyn gael Nadolig wrth ei fodd?

* * *

Y Bachgen Mewn Pyjamas, John Boyce (addas Emily Huws) Pris: £6.95

Chlywodd Bruno, sy'n naw oed, erioed sôn am yr Ateb Terfynol na'r Holocaust. Does ganddo ddim syniad fod ei wlad yn gwneud pethau mor greulon i bobl Ewrop. Yr unig beth sydd wedi digwydd i Bruno yw gorfod gadael ei gartref braf yn Berlin i fynd i fyw i dŷ mewn ardal anial, ddiffaith – lle heb ddim byd i'w wneud yno na neb i chwarae efo nhw chwaith.

Ond yna mae'n cyfarfod Shmuel, hogyn sy'n byw yr ochr draw i'r ffens weiren ar derfyn yr ardd ac sydd bob amser yn gwisgo pyjamas. Bydd cyfeillgarwch Bruno a Shmuel yn deffro Bruno o'i ddiniweidrwydd, ond nid yw'n deall yn iawn beth sy'n digwydd o'i gwmpas. Wrth geisio dod o hyd i'r gwirionedd, bydd yntau yn cael ei gynnwys yng nghynllun ofnadwy ei wlad.

Stori ryfeddol am ddarn o hanes na ddylid byth ei anghofio. Llyfr cofiadwy, pwysig am gyfeillgarwch ac am greulondeb rhyfel – bellach ar gael mewn sawl iaith ar hyd a lled y byd i gyd.

- Priodasau ● Dathliadau
- Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
- Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

H.E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

Ffôn: 870444



- ★ Gwerthwr Glo
- ★ Olew Gwres Canolog
- i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

DIOLCH. Dymuna Rhiannon, Andrew a Guto Selwyn Williams, Gwylfa, Waunfawr, ddiolch yn ddiffuant am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Guto yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb ym mis Medi oedd: £30: Dr Huw Roberts, Liverpool House; £20: Mrs Nan Huws Roberts, Madryn, 10 Erw Wen, Caethro; £10: Mrs S. Patchett, Anwylfa.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Huw Griffith, Trefeddyg, a Siôn Wyn, Y Dalar Deg, ar gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Gobeithio ichi eich dau fwynhau y dathlu a phob dymuniad da i'r dyfodol.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Bu Mr a Mrs O. Edwards, Aneddle, yn dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da ichi.

MABOLGAMPAU. Llongyfarchiadau i William Gwynedd o Stad Dôl Erddi ar ddod yn bencampwr Mabolgampau Bechgyn dan 7 oed 2009 Ysgol Brynrefail, gyda 33 pwynt.



William Gwynedd, Pencampwr
Mabolgampau Bl 7 Ysgol
Brynrefail.

Daeth Elin Llwyd, Tŷ Awelog yn drydydd ym Mabolgampau Blwyddyn 9 y genethod gyda 36 pwynt.

BRYSIWCH WELLA yw ein dymuniad i Shaun Morris, Bryn Celyn a Ceri Thomas, Stad Dôl Erddi, wedi iddynt frifo mewn damwain car a threulio cyfnod yn yr ysbyty.

CROESO ADREF o'r ysbyty i Mrs Llinos Dinwoodie, Glyn Garth, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth. Hefyd i Mr Ken Latham, Haul a Gwynt, wedi iddo yntau gael llawdriniaeth i'w law. Croeso adref hefyd i Mrs Edith Ellis, Min y Nant, wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn ddwys â Tery Alan, Nigel, June a Valerie yn eu profedigaeth o golli eu tad, Mr Bill Lewis (gynt o Ael-y-Bryn) a fu farw'n dawel yng Nghartref Plas y Bryn, Bontnewydd. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at ei chwaer, Mrs Doris Roberts, a'r teulu i gyd yn eu colled.

EGLWYS Y WAUN. Yng Nghapel y Waun brynawn Sul, 18 Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch o dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Ysgol Sul a phlant yr Ysgol Gynradd. Diolchodd Mrs Richards i bawb gymerodd ran ac i'r athrawon.

Mewn gwasanaeth arbennig o Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Waun, nos Fawrth, 20 Hydref, ordeiniwyd Mr Eurwyn Griffith, Trefeddyg a Mr Alun Ellis, Gorwel, yn flaenoriaid i'r eglwys.

Llongyfarchiadau i'r ddau ar gael eu penodi.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd noson agoriadol ddifyr iawn ar 24 Medi, gyda phawb yn chwarae gemau bwrdd amrywiol. Daeth i'r amlwg bod gan ambell aelod dalent wrth

chwarae cardiau ac ambell un arall yn gystadleuol iawn!

Yng nghyfarfod yr Hydref, bydd Linda Hughes (Calon Lân) yn ymuno â ni, nid Rhys Siôn fel a nodwyd yn yr Eco diwethaf.

Ar 26 Tachwedd, byddwn yn cael ein Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

EISTEDDFOD WAUNFAWR. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar 21 Tachwedd yng Nghanolfan Waunfawr.

Bydd cyfarfod y prynhawn yn cychwyn am 1.00 o'r gloch a chyfarfod yr hwyr am 7.00. Mae hefyd gystadlaethau gwaith cartref, megis coginio a ffotograffiaeth.

Bydd eisteddfod y prynhawn ar gyfer plant oed cynradd y pentref a chyfarfod yr hwyr yn gystadleuaeth rhwng dau dîm y pentref, sef tîm Croesywaun a thîm y Post.

Croeso i bawb ymuno yn y gweithgareddau. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Olwen Morgan (650371) neu Iola Gruffydd (650035).

Mae'r testunau ar gael yn siopau'r pentref.

CYLCH MEITHRIN. Mae'r cylch wedi ailagor gyda staff newydd ac oriau newydd hefyd. Bob bore rhwng 9 a 11.05 yn y Ganolfan. Mae 'na le i ragor o blant a gellir cael mwy o wybodaeth drwy ofyn i'r staff yn y Ganolfan neu drwy ffonio Cadeirydd y Cylch Meithrin - Jimmy Burns ar 650257.

Mae Cylch Ti a Fi yn ddiolchgar iawn i Gwenda o'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am redeg cwrs chwarae ac iaith gyda ni ers mis Medi. Rydym wedi elwa'n fawr o'i phrofiad ac wedi cael syniadau i'w defnyddio yn y cylch o hyn ymlaen. Croeso i rieni a phlant oed cyn ysgol a babanod ddod i'r Ganolfan rhwng 9 ac 11 ar foreau dydd Llun. Mae paned yn disgwyl amdanoch.

Rachel yw'r Arweinydd a Lowri yw'r Is-arweinydd
YSGOL WAUNFAWR
Cafwyd nifer o weithgareddau

addysgol yn ystod y chwe wythnos diwethaf.

Treuliodd 'Technique' 'ddiwrnod yn yr ysgol yn Cynnal gweithdy a sioe ar Oleuni a Thrydan i gyd- fynd â'n thema gwyddoniaeth y tymor hwn.

Cafwyd sesiwn addysgol dda iawn gan Bagiau Mwg i godi ymwybyddiaeth plant ar beryglon ysmegu.

Bu'r plant ar deithiau cerdded nodedig. Mae'r teithiau cerdded blynyddol nid yn unig yn codi arian i goffrau'r ysgol, ond yn cyfoethogi'r plant o'u hadnabyddiaeth o'u cynefin a'u milltir sgwâr. Eleni aeth Adran y Babanod ar daith o gwmpas y pentref i lawr i Bonpren a cherdded drwy gaeau'r pentref. Bu'r Adran Iau yn dilyn llwybrau cyhoeddus o'r ysgol i Lanberis. Hoffem ddiolch i bawb, yn rieni, perthnasau a thrigolion Waunfawr a'r cyffiniau, am gefnogi'r plant. Rydym wedi casglu £800 hyd yma.

Hoffem ddiolch hefyd i'r plant a'u rhieni a fynychodd y Gasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Croes-y- Waun ddydd Sul, Hydref y 18fed. Rwy'n siwr y gallwn adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol, a bod gwasanaeth diolchgarwch yr ysgol yn uno â'r capel ar gyfer y dathlu.

Hoffem ddiolch ymlaen llaw i bawb o'r staff, plant a rhieni fydd yn helpu i ddarparu lluniaeth ar gyfer Ras Eryri ddydd Sadwrn Hydref y 24ain. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau i Gethin ac Elan, blwyddyn 3; Cai a Rhiannon, blwyddyn 4; Aled a Mair, blwyddyn 5; a Tara a Dafydd, blwyddyn 6, am gael eu hethol ar y Cyngor Ysgol. Swyddogion y ffordd eleni yw Kushla a Tim.

Hoffem anfon ein dymuniadau gorau i Anti Margaret ein cogyddes sydd ar hyn o bryd yn derbyn llawdriniaeth. Mae pawb yn cofio atoch, Margaret, a brysiwch wella.

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: **(01286) 650218**

Taith Gerdded yr Adran Iau
 Dydd Iau yr 8fed o Hydref codais yn gynnar yn y bore oherwydd roeddwn wedi cynhyrfu'n lân, gan fy mod yn cael mynd am daith gerdded drosodd i Lanberis efo'r ysgol. Roedd blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn mynd ar y daith ac roedd Mrs Williams, Mr Williams, Anti Ann yn dod gyda ni i edrych ar ein holau. Roedd ci Mrs Williams, Bruce, yn dod ar y daith hefyd!

Ar y ffordd i fyni at y chwarel wrth Foel Eilio roedd llawer o'r coed wedi eu torri i lawr. Roeddwn i yn cerdded efo Huw, roedden ni'n siarad am wahanol bethau a wnaethom ni ddim stopio siarad yr holl ffordd.

Roedd hi'n ddiwrnod braf i gerdded a mwynheais y daith yn fawr iawn. Ond roedd fy nghoesau yn brifo ar ôl cerdded yr holl ffordd.

GWION LAW BLWYDDYN 6

Trip Glan-llyn

O'r diwedd daeth y diwrnod i fynd i Glan Llyn. Pan gyrhaeddodd cawsom ein rhannu i'n ystafelloedd. Roeddwn i yn rhannu gyda Cai, Morgan a Tomos. Agorom ein bagiau a chwilio am ein dillad nofio. Ar ôl dau funud roedd yr

ystafell fel twrch mochyn (lwcus bod ein Mam ddim yma!)

Y gweithgaredd cyntaf oedd nofio. Cawsom gêm o pob dŵr yn y pwll. Ar ôl y gêm cawsom chwarae yn y dŵr. Ar ôl nofio aethom i ganwio ar Lyn Tegid. Aethom at yr ynys yn ein canŵrs gyda ein gwynt yn ein dwn. Hwn oedd fy hoff weithgaredd.

Erbyn hyn roeddwn i eisiau bwyd. Mi fyswn wedi gallu bwyta ceffyl a dyna lwcus canodd y gloch te. Cawsom fwyd bendigedig.

Ar ôl te cawsom wyllo dvd. Roedd hi yn un da. Wedyn aethom i'n gwllau. Roedd rhaid i Mr Williams ddod yna i ddweud wrtha ni fod yn ddistaw oherwydd oedd pawb arall yn cysgu, a rhyw pum munud wedyn aeth Morgan yn sâl. Druan o Morgan!

Cefais lawer o weithgareddau gwych eraill fel dringo â rhaffau uchel. Roedd pob pryd yn flasus, digon i wneud Jamie Oliver yn genfigennus!

Pan ddaeth y diwrnod olaf roeddwn yn teimlo ychydig bach yn siomedig gan fy mod yn mynd adref. Mwynheais fy hun a chefais tri diwrnod i'r brenin. Mae fy enw i lawr yn barod i fynd blwyddyn nesaf!

TOMOS PARRY BLWYDDYN 5

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 20fed o Hydref cafwyd trafodaeth gyda PCSO Michael Couling ynglŷn â'r cwynion o'r gymuned yn ystod y ddau fis diwethaf a'r broblem gyda ceir yn gor-yrru yn yr ardal.

Fe benderfynwyd hefyd:

Trefnu gwasanaeth i gysegru rhan newydd o'r fynwent.

Symud ymlaen gyda'r trefniadau i blanu bylbiau Cennin Pedr o gwmpas y gymuned.

Cynnwys cais am grant tuag at gostau gwblhau ystafell y Band fel rhan o gais y Cyngor i First Hydro.

Cysylltu a'r contractwyr i ofyn iddo wneud un toriad arall ym meysydd chwarae Glanmoelyn a Nant y Glyn.

Codi lefel pendraw cae Glanmoelyn a chario'r ffens ar hyd y ffin gyda'r hen ysgol ymlaen at y ffordd a thrin y coed

sydd yn y cae.

Trefnu cyfarfod cyhoeddus i drafod gwelliannau i'r Cae Chwarae ger Glanmoelyn.

Gofyn i'r Cyngor Sir asesu diogelwch y ffordd ger y cae chwarae gan fod nifer mawr o rieni a phlant yno yn ystod gemau peldroed ar y cae.

Rhoi grant o £300 i Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo.

Diolch i'r Clerc am ei gwaith ar gyfer yr archwilio ariannol blyneddol, Cafodd y Cyngor adroddiad lân.

Gofyn i'r Cyngor Sir ail-baentio'r llinellau gwyn ar y groesffordd rhwng Glanmoelyn a Ffordd Minffordd.

Holi'r Cyngor Sir ynglŷn â hawliau torri coed.

Cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r grantiau sydd ar gael tuag at gostau tacluso ardaloedd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR


PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell,
Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost: williamsgw@parliament.uk



O SLAMBAR SELWYN

Mae galwadau y 'Gaeaf' wedi dechrau'n gynnar arna i eleni. Rydw i eisoes wedi cael y cyfle i ymweld ag Aberdaron ar ddau achlysur a threulio orig ddifyr yng nghwmni Cymdeithas Pensiynwyr y cylch. Ia, merched i gyd - mae'n amlwg nad ydi dynion yn heneiddio yn 'swn tonnau gwyllt y môr' ym mhen draw Llŷn.

Dwi'n hen gyfarwydd â mynd i Aberdaron fel beirniad 'Steddfod, ac yn y dyddiau cynnar mi fyddwn yn arfer mynd i Gapel Uwchmynydd, ond bellach, ers rhai blynedd, fe gynhelir yr Eisteddfod yn Ysgol Crud y Werin, a hynny ar Ddydd Llun y Pasg yn flynyddol. Ac yn yr ysgol hon mae Clwb y Pensiynwyr yn cyfarfod hefyd ac roeddwn i'n falch eu bod yn cyfarfod yn y prynhawn. Fyddwn i ddim yn hapus iawn o orfod mynd i Aberdaron ar noson oer rewllyd yn y gaeaf.

Bob tro y bydda i yn ymweld ag Ysgol Crud y Werin, mi fydda i yn cofio am y diweddar annwyl John Morris (Brynrefail) a fu'n Brifathro yno, a balch oeddwn o gael cyfarfod â'i weddw ar y ddau achlysur y bwm i'n darlithio yno yn ddiweddar.

Do, mi wn i mod i wedi ymddeol o feirniadu adrodd mewn Eisteddfodau, ond un gwael ydw i am ddeud 'Na', ac mi rydw i'n hynod falch i mi gytuno i fynd i Eisteddfod arbennig iawn a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun Llangefni ddiwedd mis Medi, sef 'Eisteddfod Heneiddio'n Dda'. Gŵyl gystadleuol ddwyieithog pobl hŷn Ynys Môn oedd hon, er cof am y diweddar Byron Williams a roddodd gymaint o wasanaeth i'r ynys.

Cafwyd yr amrywiaeth arferol o gystadlaethau ac roedd neuadd yr ysgol yn llawn trwy'r dydd, a phawb wedi cael mwynhad. Hon oedd yr Eisteddfod gyntaf, a'r bwriad ydi ei chynnal yn flynyddol. Yn ogystal â beirniadu'r adrodd, roedd gen i y cyfrifoldeb o feirniadu'r

cyfansoddiadau llenyddol hefyd, ac roedd yna nifer helaeth wedi cystadlu a'r safon yn uchel iawn. O blith y cynhyrchion llenyddol, barddoniaeth a llenyddiaeth, yr oeddwn i ddewis enillydd y Gadair, sef 'Cadair Bywyd', ac roedd hi'n gadair arbennig o hardd. Cafwyd seremoni urddasol a'r llenor buddugol oedd Mr J. Richard Williams o Llangefni ac fe enillodd Mr Williams sawl gwobr arall hefyd. Fo hefyd enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Môn eleni. Athro ysgol wrth ei alwedigaeth a bu, yn ôl a ddeallaf, yn Brifathro Ysgol Cwm-y-glo am gyfnod.

Cafwyd nifer o gystadlaethau ysgafn yn yr adran lenyddol, e.e. Llundio brawddeg allan o'r gair Caergybi/Holyhead. Dyma rai: 'Cafodd aelod enwog rybudd gan y blydi Inspector'. 'High or low, you have every advantage, darling.' a 'Cefais ambell edrychiad ramantus gan y bachgen ifanc.'

Cystadlaethau eraill oedd: Enwau Gorseddol i rai o Gymry enwog: Huw Edwards - 'Huw Hel Hanes'; Dylan Jones - 'Co Codi Cnecs'; Duffy - 'Deryn Nefyn'; Gareth Glyn - 'Gar Garlam' a Jonsi - 'Purddyn'.

Chwe dihareb gyfoes: 'Nid lles i ddyn ddwylo glân, os ei dafod sydd aflan,' ac 'Ofer yw'r groes ar y fron, os nad yw Crist yn y galon.'

A dyma rai Saesneg: 'A clear conscience is a sign of a bad memory.' 'Be kind to your kids, for they'll choose your nursing home.' 'No one reached the top by sitting on their bottom.'

Cafwyd llythyrau caru hefyd ac yn eu mysg un cariadus iawn i'r Archdderwydd! Stori fer a'i chefnidir ym Môn; Telynegion; Cerddi ysgafn a dwys. Fe gyhoeddwyd cyfrol o gyfansoddiadau buddugol yr Eisteddfod, felly mynnwch eich copi.

Portread o unrhyw berson neu bentref ym Môn a enillodd y Gadair, a'r Limrig fuddugol oedd

(a gan mai Eisteddfod ddwyieithog oedd hi roeddwn i'n barod i dderbyn yr odl!)

*One day on the street in Llangefni
I nipped in the Bull for a bevy,
I tripped on a mat,
Fell over the cat
And got carried away by the Heddlu.*

Dwi'n siŵr bod amryw o'r pensiynwyr a ddaeth i'r Eisteddfod yn mynd adre wedi cael mwynhad mawr ac yn teimlo'n ifancach o lawer.

Dyna deimlad un o'r beirniaid beth bynnag. Diolch am y cyfle.

YSGOL BRYNREFAIL

CYNHADLEDD MENTER A BUSNES - GYRFA CYMRU

Dydd Mercher 16 o Fedi 2009 cynhaliwyd cynhadledd Menter a Busnes ar gyfer disgyblion blwyddyn deuddeg gan gynrychiolwyr o Yrfa Cymru.

Rhannwyd y disgyblion i saith tîm, a chafodd pob tîm yr her busnes o gynhyrchu a marchnata faniau 'Vauxhall Motors' cardbord. Mwynhaodd pawb y diwrnod gan ddatblygu sgiliau cyfathrebu, rhifedd, datrys problemau a gweithio fel rhan o dîm



Y Tîm buddugol yn derbyn eu gwobr gan Katie Williams (Gyrfa Cymru)

Cwrs Awyr Agored: Taith o Amgylch Cwm Idwal a Llyn Bochlywd

Prif amcanion y cwrs newydd hwn yw cael profiad :

- o fordwy
- i arwain grŵp tros dir serth a chreigiog

Fe aeth criw o Ysgol Brynrefail yng nghwmni Mr Penri Jones i lethrau Cwm Idwal er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o effaith amgylchedd, twristiaeth

a cherdded ar y mynydd a'r bywyd gwyllt. Y mae'r cwrs yn hybu hunanddisgyblaeth a hunanhyder trwy roi cyfrifoldeb i unigolion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r harddwch o'u cwm pas yn ogystal a mynd oddi ar y llwybrau penodedig mewn niwl trwchus. Fel arfer, roedd ymddygiad y disgyblion a fynychodd y cwrs yn wych.



Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Aneuryn Jones a'r staff

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

CLWB SNWCER.

Mae angen aelodau newydd ar Glwb Snwcer Dinorwig. Tâl aelodaeth yw 10-15 mlwydd oed: £5; Dros 18 oed: £10. Hwn yw'r unig dâl aelodaeth sydd angen ei dalu. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Evan Bryn Roberts ar 870677 neu Dave Woods ar 871782.

MERCHED Y WAWR.

Ar 21 Medi, cynhaliwyd noson agoriadol Merched y Wawr am y tymor 2009-10. Canwyd Cân y Mudiad ac estynnodd Brenda Jones groeso cynnes i bawb o'r hen aelodau oedd yn bresennol ac i Mrs Mona Parry, sydd wedi ymaelodi o'r newydd.

Llongyfarchwyd Helen ar ddod yn nain am y tro cyntaf a hynny i efeilliaid, sydd yn byw i lawr yng Nghaerdydd. Da oedd cael croesawu yn ôl rai o'r aelodau na fu'n dda yn ddiweddar ac i Margaret Ellen ar ôl llawdriniaeth ar ei phen-glin.

Croesawyd y gŵr gwadd, sef Russell Jones o'r rhaglen Byw yn yr Ardd, ond nid garddio oedd thema y noson! Roedd wedi dod â dwy iâr fawr gydag ef a rhoddodd hwy i sefyll ar fwrdd o flaen yr aelodau, ac er mawr syndod i bawb ni symudodd yr un ohonynt trwy'r cyfarfod. Aeth ymlaen i sôn sut y dechreuodd ei ddiddordeb mewn cadw ier a sut yr oedd yn eu paratoi cyn eu harddangos mewn sioeau ar hyd a lled y wlad. Cafwyd noson hynod o ddifur a doniol yn ei gwmni.

Estynnodd wahoddiad i'r aelodau i ymweld â'r 'patch' newydd fydd ganddo ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn iddo ddangos y gwahanol ffyrdd o dyfu planhigion ac yn y blaen. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 19 Hydref, pan fydd Pat a Pauline yn dangos i ni sut i wneud cardiau amrywiol gardiau, fel rhai pen-blwydd a

chardiau Nadolig.

Croeso cynnes i unrhyw un a ddymuna ymaelodi â'r gangen. C Y M D E I T H A S CYFEILLION EGLWYS CRIST.

Nos Lun, 5 Hydref, cafwyd noson yng nghwmni Mr Bobbie Haines o Gaernarfon. Sgwrs hynod amrywiol a diddorol oedd ganddo. Siaradodd am ei arwr, Paul Robeson, oedd yn berchen ar lais hynod y Negro, ac am ei ymweliad â Chymru yn y 30au ac am ei ymweliad yntau â chartref Paul Robeson yn America. Dangosodd inni ran o'r gasgliad amrywiol o bethau mae wedi eu derbyn dros y blynyddoedd. Paratowyd y bwyd ar ein cyfer gan Wavells, Llanrug, ac roedd yn hynod o flasus ac amrywiol.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL.

Braf oedd cael cyfarfod o'r Gymdeithas, ar ôl seibiant dros yr haf, yn Festri Ebenezer (am y tro) ar nos Lun, 27 Medi. Cafwyd noson gartrefol a hwyliog yng nghwmni talentog Lleisiau Lliwedd, Llanberis, o dan arweiniad Gareth Jones a'r gyfeilyddes, Marcia Thomas. Croesawyd hwy gan y Parchedig John Pritchard. Dda oedd gweld cymaint o aelodau hen a newydd wedi dod ynghyd a diolchwyd iddynt gan y Cynghorydd Len Jones.

CRONFA

YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN.

Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Dylid anfon ceisiadau i Glyn Gruffydd, 3 Hafod, Clwt y Bont, Deiniolen. Y dyddiad cau yw 20 Tachwedd, 2009.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

GWELLHAD BUAN. Da yw deall fod Mrs Margaret Faulkener, Fron Dirion, wedi derbyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd erbyn hyn. Hyderwn y bydd yn gwella yn llwyr ac y bydd adref yn lled fuan.

COFION. A ninnau ynnhymor y Diolchgarwch, yr ydym yn anfon ein cofion at Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd wedi gorfod rhoi ei chartref i fyny, ond yn cartrefu ar hyn o bryd ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis, ac yn teimlo yn lled dda.

Hefyd Mrs Laura Williams, Tan y Fron gynt, hithau yn

cartrefu ar hyn o bryd ym Mhlas Garnedd, Llanberis ond yr iechyd ddim wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Felly, Mrs Williams, brysiwch wella a gobeithio y byddwch yn teimlo yn llawer fwell yn fuan.

Cofion at bawb yn yr ardal sydd yn cwyno hefyd.

CLWB SNWCER. Mae angen aelodau newydd ar y Clwb Snwcer. Tâl aelodaeth yw 10-15 ml oed: £5; Dros 18 oed: £10. Hwn yw'r unig dâl aelodaeth sydd angen ei dalu. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Evan Bryn Roberts ar 870677 neu Dave Woods ar 871782.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

OEDFAON TACHWEDD

- 1: Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 2.00
- 8: Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern am 5.30

- 15: Mr T Alun Williams, Caernarfon am 5.30

- 22: Parch Marcus Robinson, Bethel am 2.00

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

- 29: Mr Robert M Morris, Penygroes am 5.30

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyd



BEICS MENAI

SÊL NADOLIG

Sadwrn a Sul Hydref 31- Tachwedd 1af.

BARGEINION AR Y DIWRNOD!!

Beics Newydd Ar Gyfer Y Teulu I Gyd
Nwyddau A Dillad Beicio
Gwasanaeth danfon lleol am ddim wythnos cyn y Nadolig

BEICS MENAI 1 Cei Llechi Caernarfon WRTH Y CASTELL
(01286) 676804 neu 07770951007


Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)




CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD AC ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



FFAIR NADOLIG

RHAGFYR 4&5 • 11&12 • 18&19
Dydd Gwener 11.00-20.00 Sadwrn 10.00-18.00

SÊL ADDURNIADAU NADOLIG

Anrhegion • Planhigion • Bwlbiau • Rhithoedd a mwy

BLODAU LIENEKE

Cae Rhyddau Pontrug LL55 2TN
Mobile- 07510 511 631

Web: <http://www.blomstervill.no> • e-bost- blomstervill@robin.no

LLANBERIS

Gwyneth ac Elfion Roberts, Sŵn y Gwynt., Ffôn: 870740

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Wyn Williams, Carlinig, ar dderbyn canlyniadau hynod foddhaol yn ei arholiadau 'Lefel A'. Da iawn chdi, a phob lwc i ti yn y Brifysgol, Mam, Dad a Caryl.

DYMUNA Iwan Wyn Williams, Carlinig, ddiolch o galon i bawb am y cardiau ac arian a dderbyniodd yn dilyn canlyniadau ei arholiadau 'Lefel A' yn ddiweddar.

YSGOL DOLBADARN

Croeso: Ar y dde dyma luniau o'r plant meithrin sydd wedi ymuno â'r ysgol. Mae pawb wedi setlo'n dda a gobeithio y bydd pawb yn hapus iawn yma gyda ni yn yr ysgol. Mae'r dosbarth derbyn hefyd wedi setlo'n dda ac yn mwynhau cael bod yn yr ysgol trwy'r dydd!

Croeso cynnes hefyd i Mrs Bethan Griffith sydd yn dysgu rhan amser yn yr ysgol. Rydym hefyd yn falch o gwmni Miss Debbie Williams a Miss Awen Dodd sy'n fyfyrwyr o'r Brifysgol ym Mangor a Miss Stephanie Welsby o Goleg Menai. Gobeithio y byddwch chithau hefyd yn hapus iawn yn yr ysgol.

Paid cyffwrdd, dweud: Cafodd yr ysgol gyfan gyflwyniad ar beryglon cyffuriau gan ddysgu nifer o negeseuon pwysig mewn modd hwyliog.

Blodau i'r henoed: Bu disgyblion blwyddyn 6 wrthi'n brysur dros ben yn paratoi potiau blodau yn rhodd i rai o henoed y pentref mewn cydweithrediad â Menter Fachwen. Derbyniodd yr ysgol fainc yn rhodd gan Fenter Fachwen i ddiolch am eu gwaith ac mae'r plant wrth eu boddau gyda'r fainc! Diolch i'r fenter ac i'r plant am eu gwaith caled.

Cei Bach: Roedd yna gynnwrf mawr yn Adran y Babanod pan gafwyd ymweliad gan rai o gymeriadau'r rhaglen newydd *Cei Bach* sydd ar Cyw, S4C. Cafodd y plant wyllo rhaglen o'r gyfres a sgwrsio gyda'r cymeriadau. Mae pawb yn edrych ymlaen at wyllo'r rhaglen rŵan.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Yng nghyfarfod cyntaf y tymor ar 13 Hydref,



cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug. Soniodd, am dair llofruddiaeth a fu yn yr ardal yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard a diolchwyd i Mr Thomas gan Mr Gareth Jones.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 10 Tachwedd yn Festri Capel Coch am 7.15 yh. Pryd y bydd Mr Norman Evans, Niwbwrch yn rhoi arddangosfa ar Drefnu Blodau i ni.

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd, cewch sgwrs a phaned ar y diwedd.

DIOLCH. Dymuna Rhiannon, Andrew a Guto Selwyn Williams, Gwylfa, Waunfawr ddiolch yn ddiffuant am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Guto yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

COR MEIBION DYFFRYN

PRIODAS. Ar yr 28ain o Awst priodwyd David Anthony Roberts, 2 Stryd Bethesda, â Donna Lucillie Jones, o'r Groeslon, yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd



Dafydd; a diolch i'r tri ohonynt. Rhannwyd y ffrwythau a gyflwynwyd yn yr oedfa gan y plant i rai o aelodau hynaf y ddwy eglwys, ac i rai sy'n wael ar hyn o bryd. Diolch am yr help i'w dosbarthu.

DIOLCH. Dymuna David a Donna ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Olwen a

PERIS. Yn ôl eu harfer, bu'r Côr yn cynnal noson elusennol yng Nghlwb Rhosgadfan ar y 16eg o Hydref. Yr unawdydd eleni oedd y tenor adnabyddus, Trebor Edwards, o Betws Gwerfyl Goch. Roedd y Neuadd yn orlawn a phawb wedi cael noson arbennig. Aeth elw'r noson, dros £600, at adran cancer Ysbyty Glan Clwyd.

CAPEL COCH. Cynhaliwyd yr oedfaon Diolchgarwch ddydd Sul, Hydref 11. Roedd y festri wedi ei haddurno yn drawiadol iawn ar gyfer yr ŵyl. Diolch i Gareth, Valerie a Colin am eu gwaith caled. Diolch hefyd i'r plant am wneud eu rhan mor dda yn oedfa'r bore. Cafwyd oedfa fendithiol, ac roedd pawb yn canmol y plant am eu gwaith. Diolch, yn naturiol, i'r athrawon am baratoi'r plant ar gyfer yr oedfa, ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. Roedd y gwasanaeth eleni ar thema 'Dŵr', a buom yn diolch i Dduw am ddŵr a'r holl fendithion a ddaw i ni drwyddo.

Buom yn cofio hefyd am waith yr elusen Gristnogol, Tearfund, sy'n gweithio mewn gwledydd fel Uganda trwy brosiectau sy'n gofalu bod dŵr glân i'w gael fel nad oes raid i bobl gerdded pellteroedd mawr i gario dŵr. Diolch i bawb a fu'n helpu efo'r baned a ddarparwyd ar ddiwedd yr oedfa hefyd.

Cymerwyd rhan yn oedfa'r hwyr gan Valerie, Falmai a

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

**YSTAFELLOEDD
YMOLCHI**

A LLORIAU

**9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon**

**(01286) 669090
Mobile-07894818783**

**EISTEDDFOD
BENTREF**

**LLANRUG
A CHWM Y GLO**
Yn NEUADD YSGOL
BRYNREFAIL

**Nos Wener, 13eg o
Dachwedd
Am 5.30pm.**

**Noson Celf a Chrefft –
Neuadd Ysgol Llanrug
Cynnyrch i law erbyn
5.00pm**

**Nos Lun, 9fed o
Dachwedd.
Arddangosfa o'r Cynnyrch
am 7.30pm.**



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Gwynedd, 10 Maes Derlwyn, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Nancy Jones, Y Garnedd, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am wneud diwrnod ei phen-blwydd arbennig mor bleserus. Diolch yn gynnes iawn am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniodd. Roedd yn ddiwrnod i'w gofio. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Hefina Jones, 2 Blaen y Ddôl, ddiolch i'r teulu a'r ffrindiau oll am yr holl flodau, cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn y llawdriniaeth a gafodd yn ddiweddar. Diolch unwaith eto.

DIOLCH. Dymuna David a Sarah Sellers-Welsby ddiolch

i'w teulu, ffrindiau a phentrefwyr am y cardiau, anrhegion a'r pres a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

PEN-BLWYDD. Dymunwn Ben-blwydd Hapus, yn 18 oed, i Daniel Thomas, Stryd Goodman.

BEDYDD. Yr wythnos ddiwethaf, bedyddiwyd wyr bach Mrs Elizabeth Pitts, Dôl Elidir, ym Manceinion.

PEN-BLWYDD. Dymuniadau gorau i Joyce Ffoulkes, Dôl Elidir, ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ddiwedd y mis yma.

DIOLCH. Dymuna Aled a Llinos (1 Stryd Tomos gynt) Llanfairpwll, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab bach Carwyn Iwan Fôn Evans ar y 30ain o Fehefin 2009.



Plant Ysgol Dolbadarnar y wal ddringo newydd gan Marathon Eryri

RHIFYN NESAF ECO'R WYDDFA

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol

NOS SUL Tachwedd 15ed

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg: **NOS IAU Tachwedd 26ain**

Dyddiad Gosod

Nos **WENER Tachwedd 20fed**,

6:30yh Sefydliad Coffa Llanrug

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

na-nog

Y SIOP GYMRAEG

Dewch draw i siopa 'Dolig!

Dewis da o gwyno ddisgiau
i siwtio pawb, llyfrau ar gyfer
pob oedran, DVDs, CD-ROMs,
gemau a jigsôs i'r plant, dillad gyda
sloganau Cymraeg, crysau rygbi ar gyfer
pob oed, cardiau 'Dolig,
hosannau Nadolig Llawen,
nwyddau Golffio, mwgiau,
anrhegion a llawer
iawn mwy!

Chwilio am anrheg unigryw?
Beth am fwg, mat diod neu
grys-t efo neges neu lun
person arbennig arno?
www.na-nog.com

Y Maes • Caernarfon • 01286 676946

Noson WARBI 2

THEATR SEILO CAERNARFON
7.30 Nos Wener HYDREF 30

KEV BACH Yn cyflwyno

Iona Stephen Williams
(Enillydd Ruban Glas)

Alistair James

Mon Heli

Gari Jones

Gemma Markham

Raymond Jones (Tenor)

Gwenno Brown

Côr y Waun (Waunfawr)

Elw Y Noson I Gyd Tuag At Ymddiriedolaeth Warburton
TOCYNNAU-£10.

AR GAEL YN SIOP NA NOG, CAERNARFON • CWPWRDD CORNEL, LLANGFNI
NEU DRWY FFONIO- (01286) 650812



www.ffmpegia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Cyfarfu'r aelodau y mis yma yn Festri'r Cysegr a chroesawyd pawb ynghyd, gan gynnwys dau aelod newydd, gan Selwyn Griffith. Hysbyswyd yr aelodau am rodd ariannol a ddaeth i law er cof am Goronwy Jones a fu farw yn ddiweddar. Fel y gwyr pawb, roedd Goronwy yn Llywydd ar y Clwb ac yn un o'i sylfaenwyr.

Diolchwyd i'r pump fu o gwmpas yn casglu er budd Age Concern Gwynedd a Môn a chyfanswm y casgliad eleni oedd £331.77. Yn dilyn hyn bydd y Clwb yn derbyn hanner y swm i'r coffrau. Dymunwyd yn dda i Nancy Humphreys, Ty'n Rhos, yn dilyn ei chodwm yn ddiweddar. Y siaradwraig wadd oedd Glenda Maloy a chafwyd ganddi, gyda chymorth DVD, sgwrs hynod o ddiddorol ar waith yr Ambiwlans Awyr.

Bob tro y bydd yn ymateb i alwad mae hynny'n costio £1,000 ar gyfartaledd, ac mae'r gost o gynnal y gwasanaeth am flwyddyn yn £5 miliwn. Dros Gymru gyfan mae tair hofrennydd sy'n gwasanaethu'r de, y gogledd a'r canolbarth, a'r gobaith yw cyrraedd unrhyw ran o Gymru o fewn ugain munud.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi, ac i ferched y te, Gwyneth Hughes gan Elizabeth Evans. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 3ydd. yng nghwmni Gwenan Mai Williams, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

MERCHED Y WAWR. Cychwynwyd cyfarfod y mis yma gyda chroeso cynnes gan Mair Read, y Llywydd. Braf oedd cael llongyfarch Brenda Jones ar ddod yn Nain i Evan Rees, a hysbyswyd yr aelodau

am nifer o faterion y Mudiad. Derbyniwyd nifer dda o enwau ar gyfer y Cwis Cenedlaethol, gan obeithio y bydd o leiaf dau dim yn cynrychioli'r gangen ar Tachwedd 20fed yn Seiont Manor. Dosbarthwyd llyfrau raffl i bob aelod ar ran y Rhanbarth, a gofynnir i bawb geisio eu gwerthu erbyn dechrau mis Ionawr.

Gofynnir i bawb hefyd ddychwelyd ffurflen y Swper Nadolig erbyn y cyfarfod nesaf ynghyd â'r arian er mwyn cwblhau'r trefniadau.

Sarah Anderson, gwneuthurwraig gemwaith oedd y wraig wadd a chawsom ganddi hanes ddiddorol iawn sut y bu iddi gynllunio a chreu y goron ar gyfer Eisteddfod Meirion. Derbyniodd ei hyfforddiant yn Llundain tra'n gweithio fel athrawes, ond erbyn hyn mae hi yn byw yn y Fachwen. Soniodd am y ddwy thema oedd yn ei meddwl wrth ddechrau cynllunio, sef pwysigrwydd lleoliad y Bala yng nghanol mynyddoedd Eryri a'r iaith Gymraeg. Roedd wedi llwyddo i gyfuno'r ddwy thema yng nghynllun y goron fel cadwyn ddiddiwedd a pharhaol.

Arian yw'r goron ei hun, ac mae'r mynyddoedd yn rhan allweddol o'r cynllun - deuddeg copa i gyd fynd â deuddeg o feini'r Orsedd. Roedd pawb yn falch iawn drosti pan gyhoeddwyd yn Seremoni'r Eisteddfod ar y dydd Llun bod y Prifardd Ceri Wyn yn llawn haeddu ennill y goron hardd.

Diolchwyd iddi am rannu ei phrofiadau a'i harbenigedd gan Rhian Hughes, ac enillydd y raffl oedd Nancy Williams.

Pat Jones Brynrefail fydd gyda ni y tro nesaf gan edrych ymlaen at greu deunydd ar gyfer y Nadolig.

EISTEDDFOD BENTREF.

Cynhelir yr Eisteddfod bnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 7fed, am 1.00 a 6.30 o'r gloch.

- Enwau unigolion a grwpiau y dawnsio i Sian Harries (671430) erbyn nos Wener, Hydref 30ain.

- Gwaith Celf - Mae manylion y cystadlaethau yn y testunau. Rhaid rhoi enw ar gefn y gwaith ynghyd â'r oedran priodol, a dod â'r gwaith i'r Neuadd Goffa, NOS FERCHER Tachwedd 4ydd rhwng 6 a 7 o'r gloch.

- Gwaith Llên - Uwchradd a'r ddwy gystadleuaeth Agored i law'r ysgrifenyddes yn 4 Tan y Cae erbyn 5 o'r gloch NOS SADWRN, 31ain Hydref.

Os oes unrhyw un yn dymuno rhoi rhodd tuag at yr eisteddfod yna cysylltwch â'r Trysorydd, Gwyneth Jones, neu'r Ysgrifenyddes, Rita Williams.

Gobeithio y bydd eto y flwyddyn yma gynulleidfa deilwng yn y cyfarfod prynhawn a'r nos. Dewch draw i gefnogi.

DIOLCH. Carai Sian a Mark Roberts, Cae Clyd, Bethel ddiolch o galon i'w holl ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch, Efa Medi Gruffudd.

CAPEL BETHEL. Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul, fore Sul Hydref 18fed. Thema eleni oedd 'Diolch i Dduw' mewn amrywiol ffyrdd. Cyflwynwyd eitemau graenus gan y plant, yn ddarlleniadau a gweddiau, a chanwyd tair cân, gan ddiweddu gyda'r plant, wedi gwisgo'n addas, yn canu am feddygon, ffermwyr, nyrsys a gorffen trwy ddiolch:

Drwy ein help ni oll,

cawn hapusach byd.

Gweithiwn law yn llaw,

Gyda Duw o hyd.

Canwyd unawd gan Moli i orffen y cyfarfod. Talwyd diolchiadau gan y Gweinidog, gan ddiolch yn arbennig i'r plant am eu gwaith canmoladwy, ac am y rhaglen a'r paratoi.

Y NEUADD GOFFA. Nos Fercher Hydref 14eg, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y Neuadd. Daeth nifer dda o'r ardalwyr ynghyd a chafwyd trafodaeth fywiog ac adeiladol. Cyhoeddodd Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Pwyllgor eu bod yn awyddus i ymddiswyddo mor fuan ag sydd modd a chyhoeddodd y Trysorydd nad oedd yn dymuno parhau yn ei swydd wedi 31 Mawrth 2010.

Yn dilyn trafodaeth bellach cafwyd enwau rhai oedd yn fodlon rhoi eu henwau ymlaen i ymgymryd â swyddi ar Bwyllgor y Neuadd a

phenderfynwyd cynnal Cyfarfod Blynnyddol i sefydlu'r Pwyllgor newydd.

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol am 7.30 nos Fercher, 18 Tachwedd, a gwahoddir 2 gynrychiolydd o fudiadau a chymdeithasau'r ardal ynghyd ac unrhyw un sydd â diddordeb yn nyfodol y Neuadd.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Agorwyd y cyfarfodydd am eleni o dan lywyddiaeth y Dr. J. Elwyn Hughes. Wrth groesawu'r aelodau cyfeiriodd at rodd oedd wedi dod i law, er

cof am y diweddar Goronwy Jones, Cilan. Y gwr gwadd oedd Robert Wyn Roberts, Bontnewydd, sydd erbyn hyn yn Brifathro Ysgol Llandegai.

Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo yn sôn am ei gyfnod yn y Coleg Cerdd ym Manceinion i astudio llais, cyn iddo arallgyfeirio i fyd addysg a mynd i'r Coleg ym Mangor.

Roedd wedi cael blas ar gystadlu ers nifer o flynyddoedd a chawsom nifer o hanesion difyr ganddo am y profiadau hynny o grwydro o 'Steddfod i 'Steddfod. Diddorol hefyd oedd y ffaith iddo gystadlu un tro yn Eisteddfod Bethel pan yn fachgen ifainc. Yn ogystal â'r sgwrs cawsom wledd o ganu hefyd, wrth iddo gyflwyno nifer o ganeuon - unawdau Cymraeg, arias allan o Opera ac Oratorio, a chân allan o Sioe Gerdd. Roedd pawb wedi mwynhau y noson yn fawr iawn.

Diolchwyd iddo am noson arbennig gan Glenys Griffiths.

Dr. J. Elwyn Hughes fydd yn annerch y tro nesaf yn Festri'r Cysegr ar Dachwedd 17.

YSGOL SUL Y CYSEGR. Daeth nifer dda o aelodau, ynghyd â chyfeillion a rhieni, i gefnogi plant yr Ysgol Sul wrth iddynt ymgymryd â'r Gwasanaeth Diolchgarwch. Croesawyd pawb i'r Oedfa gan Geraint Elis. Thema'r cyflwyniad oedd 'Y Byd Mawr Crwn', a chafwyd cyfraniadau ar lafar ac ar gân gan pob dosbarth, ynghyd â darlleniadau i gyd fynd â'r thema gan yr Athrawon.

I gloi cyfraniad y plant aethant i gyd i'r sêd fawr a chydganu 'Diolch i Ti Arglwydd am ein Byd Mawr Ni' a 'Mae Ganddo'r Holl Fyd yn ei Law'.

Braf oedd cael cwmni Andrew Settatrecc, gweithiwr ieuenctid yr ardal, a bu iddo siarad yn ddifyr iawn cfo'r plant am stori'r ddwy dorth a phump pysgodyn. Diolchwyd i'r athrawon am addurno'r Capel, i Rita Williams am baratoi'r cyflwyniad ac i Gethin a Siôn wrth yr organ. Bydd y plant yn cael gwyliau o'r Ysgol Sul am ddwy wythnos - yna dechrau paratoi at y Nadolig!

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu billiau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiŵn, tripiâu ac ati. Cwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

SEFYDLIAD COFFA.
Enillwyr Clwb 100 mis Hydref oedd: £20: G. Hughes, Eithinog, Glanffynnon; £7: Wendy Owen, 23 Hafan Elan; £5: C. Evans, 9 Nant y Glyn.

DIOLCHIADAU

Dymuna Helena Munro, 1 Penrallt, ddiolch i'w theulu a phawb am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed ym mis Medi.

Hefyd fe ddymuna Mrs Mair Humphreys, Rhoslan, Stad Minffordd, ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Walton yn ddiweddar.

Ar ôl dau gyfnod yn yr ysbyty, dymuna Mrs Joan Williams, Llwyfor, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn arw am yr holl alwadau, ymweliadau a charedigrwydd mae wedi ei dderbyn gan bawb yn ystod y cyfnod yma.

PROFEDIGAETH. Yn sydyn, bu farw Peter Williams, Corlan y Rhos (Tyddyn Alys gynt). Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i'w gymar a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn y Ganolfan Gymunedol ar 13 Hydref. Estynnodd Margaret, y Llywydd, groeso i bawb a thynnodd i'n sylw nifer o ddigwyddiadau: Ysgol Undydd i Ddysgwyr ar 14 Tachwedd (enwau gwirfoddolwyr i siarad â Dysgwyr i Nia Llywd ar 01248 370651), Cwis Cenedlaethol yng Ngwesty Seiont Manor ar 20 Tachwedd, Ffair Aeaf Llanellwedd, cystadleuaeth cynllunio Cerdyn Nadolig 2010 a Sioe Frenhinol Llanellwedd.

Mae cyfnod Bethanne fel Llywydd Rhanbarth Arfon erbyn hyn wedi dirwyn i ben a diolchodd Margaret yn fawr iddi am ei gwaith clodwiw yn

ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodwyd nad oes cyfleusterau addas parthed gofal ysbeidiol i rai o dan 65 oed sy'n dioddef o'r cyflwr ME ac anogir pobl i gyflwyno cwynion am ddiffygion o'r fath i'r Ganolfan yn Aberystwyth.

Gwestai'r noson oedd Llion Iwan, gwŷr a fagwyd yn y Waunfawr ond sydd erbyn hyn yn trigo yn Y Groeslon. Bu'n ohebydd papur newydd am ddwy flynedd, treuliodd ddeng mlynedd gyda'r BBC fel newyddiadurwr ar y cychwyn ac yna yn gynhyrchydd a chyfarwyddwr rhaglenni dogfen, ac ers 2004 mae'n ddarlithydd Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Mae wedi ysgrifennu pedair nofel ynghyd â chyhoeddiadau niferus eraill ac wedi dod i'r ail safle yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddau achlysur. Roedd yn uchelgais gan Llion, pan yn blentyn, fod fel Karl Woodward, gohebydd i'r *Western Mail*. Bu'n cystadlu mewn eisteddfodau ym mhentref Waunfawr ac yna yn ei arddegau bu'n darllen yn eang. Darganfu gyfrol ei daid: *Rhwng Coch a Gwyrdd*, a chyfrol ei hen daid, *Gwas Ffarm*.

Darllenodd ddetholiad o'i gyfrol *Anweledig*, nofel gyda'r rhyfel yn Afghanistan yn gefndir iddi. Adroddodd un hanesyn am fachgen yn penderfynu bod yn hunan fomiwr; a dangosir ochr arall i'w gymeriad wrth iddo ymgeleddu ei nain ar ei gwely angau ac yna yn creu drychfeddwl ohoni yn ei fwydo ef pan oedd yn faban. Yna aeth Llion ymlaen i bortreadu'r modd yr oedd teulu yn cael eu gwasgu at ei gilydd mewn sefyllfa o ryfel.

Mae'r llinyn sy'n rhedeg trwy'r gwaith ac yn ei glymu at ei gilydd yn rhywbeth oesol, sef y teulu a'r hyn sy'n digwydd iddo. Dangosodd Llion ei

feddwl dadansoddol praff a'i allu i edrych ar sefyllfa, digwyddiad a gwrthrych o sawl persbectif. Mae ysgrifennu yn bwysig iddo ac mae'n ceisio sicrhau bod ei waith yn gredadwy, yn ddealladwy ac yn apelgar. Cyfeiriodd at awduron fel Emyr Jones (Gwaed Gwirion), Steinbeck a Pelicanos fel rhai a fu'n ddylanwad arno ynghyd â'r ffaith fod profiad o ddarlledu a chynhyrchu yn ysgogiad i ysgrifennu.

Diolchodd Margaret i Llion am ei gyflwyniad diddorol, chwaethus a threiddgar. Noddwyd y noson gan yr Academi.

Paratowyd y baned gan Menna, Enid a Mair ac enillwyd y raffl gan Megan. Y llynedd enillodd cangen Llanrug gystadleuaeth Llyfr Lloffion Rhanbarth Arfon a dangoswyd y cwpan.

Cynhelir y cyfarfod nesaf at 10 Tachwedd a bydd Pat Jones yn dangos Cardiau ac Addurniadau Nadolig.

Bydd y cinio Nadolig, erbyn hyn, yn y Gardd Fôn, Y Felinheli ar 8 Rhagfyr a'r pris yw £19.95. Cesglir yr enwau a'r arian yn y cyfarfod nesaf os oes modd.

Aeth 15 o aelodau'r gangen i Theatr Ardudwy, Harlech, i weld drama Meic Povey: 'Tyner yw'r Lleuad Heno' a threfnwyd y bws gan Theatr Genedlaethol Cymru.

CAPEL Y RHOS. Cyflwynodd plant yr Ysgol Sul eu gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, Hydref 18fed. Diolch i bob un ohonynt am eu gwaith graenus ac i'r athrawon am eu paratoi mor drwyadl. Diolch am y cyfraniadau o ffrwythau a llysiau. Dosbarthwyd rhain ymysg aelodau a chyfeillion yr achos.

Drannoeth cafwyd cyfarfod gweddi ar y dydd Llun traddodiadol. Arferid cau yr ysgolion a'r chwarel ar gyfer yr wyl hon. Daeth aelodau'r gwahanol gapeli a'r eglwys ynghyd a chafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau bendithiol iawn. Llywyddwyd gan y Parch.

Marcus Wyn Robinson a'r cyfeilyddion oedd Mrs. Jane Parry i'r plant a Mrs. Ann Thomas i'r canu cynulleidfaol. Oedfaon mis Tachwedd

1: Y gweinidog a gweinyddir y Cymun

8: Parch. Ddr. Elwyn Richards

15: Y gweinidog

22: Dr. Tudor Ellis

29: Parch. Reuben Roberts

PLAID CYMRU

Cafwyd trafodaeth fuddiol ar ddyfodol pentref Llanrug mewn cyfarfod o Blaid Cymru Nos Fercher, Hydref 21, dan lywyddiaeth y Cynghorydd Goronwy Hughes. Ar y panel roedd y Cynghorydd Charles Jones o Gyngor Gwynedd yn ogystal â'r Cynghorwyr Cymuned, Hefin Jones a Cliff Williams.

Ymysg y pynciau a godwyd roedd y tai a'r tai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, cynlluniau a syniadau ar gyfer y sgwâr, cyfleusterau ac adnoddau i bobl ifanc, a golwg y pentref yn gyffredinol. Roedd yn werth clywed am y gwaith mae'r cynghorwyr yn ei wneud er budd trigolion Llanrug.

Enillwyr y Clwb Cant: Medi £10 E. Rowlands. £5 Gwenda Roberts

Hydref: £10 Frank Green £5 Charles Jones

Cynhelir Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa Nos Fercher, Tachwedd 18; dyma'r ymdrech flynyddol i godi arian, a bydd Trysorydd y Gangen, Meirwen Lloyd (Ffôn 675359), yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad.

**Cofiwch gefnogi
ein holl
hysbysebwyd**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyftandir.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Gerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.

- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwastat a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk




**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)



SEFYDLU GWEINIDOG. Ar nos Iau, 1af o Hydref, cynhaliwyd Cyfarfod Sefydlu'r Parchedig Marcus Wyn Robinson fel Gweinidog Capel Caeathro, Gofalaeth Bro'r Saint (gyda Chapel y Cysegr, Bethel a Chapel y Rhos, Llanrug), Henaduriaeth Arfon, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Llywydd y Cyfarfod oedd Clifford Owen, Llywydd yr Henaduriaeth, gyda chymorth y Parchedigion Gwenda Richards, Eric Jones ac Elwyn Roberts.

Er mwyn cyflwyno'r Eglwys i'r Gweinidog newydd roedd gan nifer o'r aelodau, cyfeillion a plant yr Eglwys a chymuned rôl yn y Cyfarfod. Ymhlith y rhain oedd Marian Hughes, Nia Jones, Gwenno Bebb, Clive James, Ceri Ann, Iona Ceiriog, Dewi Jones, Glenda Hughes, Bethan Iwan, Deiniol Hughes, Eryl Jones ac Ifor Hughes. Roedd casgliad tuag at goffrau Cymorth Cristnogol. Ar ôl y Cyfarfod ymunodd cyfeillion eglwys Y Waun, Cysegr, Y Rhos a Seilo gyda thrigolion Caeathro mewn gwledd o fwyd a baratowyd gan pobl y fro, a chafwyd cyfle i gymdeithasu. Mae'n amlwg fod y Gweinidog newydd wedi mwynhau'r achlysur bron cymaint â rhai o blant y pentref!

CLWB Y MERCHED. Nos Iau, 24 Medi, daeth nifer dda o aelodau ynghyd i'r cyfarfod cyntaf ar ôl seibiant yr haf. Cyn trosglwyddo'r awenau, cydymdeimlodd y cyn-Llywydd, Rhiannon Roberts, ag Olga Evison a'r teulu sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar, hefyd dymunodd yn dda i Catrin, merch Olga, sydd wedi ymadael am Awstralia am flwyddyn. Diolchodd i'w chyd-swyddogion, Eirwen a Glenda,

am eu gwaith graenus a thrylwyr ar hyd y flwyddyn. Swyddogion am y tymor i ddod yw Bethan Iwan (Llywydd), Dilys Griffiths (Ysgrifennydd), Heather Jones (Trysorydd).

Estynnodd y Llywydd longyfarchiadau'r Clwb i Iona Ceiriog ar ennill gradd M.Ed. yn ddiweddar yn ogystal â dymuno'n dda i ddisgyblion y pentref sydd wedi dechrau yn y Coleg.

Trefnwyd rhaglen amrywiol a chynhwysfawr ar gyfer y tymor i ddod. Rhoddwyd y raffl gan Heather ac fe'i enillwyd gan Catrin. Rhiannon Roberts, aelod o'r Clwb, fydd yn ein diddori nos Iau, 29 Hydref, am 8.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Edrychwn ymlaen at wrando ar hanes ei gwyliau yn ymweld â Mari, ei merch, yn Japan. Yn gyfrifol am y te fydd Bethan a Nia.

CYDYMDEIMLAD. Yn ddiweddar bu farw Mrs Frnacis, mam Olga Evison, Cae Hopcyn. Cydymdeimlwn ac Olga a'i chwiorydd a'u teuluoedd oll. Gyda llaw, mae Catrin Evison erbyn hyn yn treulio cyfnod yn Awstralia.

CAPEL. Bydd y canlynol yn cael eu cynnal trwy fs Tachwedd;

1: 2.00 Parch Trefor Jones

11.00 Ysgol Sul

15: 11.00 Ysgol Sul

2.00; Parch Reuben Roberts (Cymun)

22: 11.00 Ysgol Sul

29: 11.00 Ysgol Sul

Cynhelir y Ffair Nadolig am 7.00 o'r gloch nos Iau, 5 Rhagfyr.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol ar gyfer mis Hydref oedd: £40; (110) Anna Williams, Cefn Gof; £25; (41) Sandra Thomas, 18 Tai

Glangwna; £15; (102) Llio Jones, Glanrafon; £5; (101) Dewi Parry, Cefn Rhos.

Mae Pwyllgor y Cae Chwarae yn dra diolchgar am eich cefnogaeth barhaol. Yn ddiweddar mae rhai aelwydydd wedi dechrau talu am eu hail rif - un iddi hi ac un iddo fo! Diolch yn fawr iddynt.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan y Capel nos Fercher, 22 Hydref. Cynrychiolwyd Ward Caeathro gan y Cynghorwyr Cadi Jones a Clive James. Derbyniwyd cadarnhad fod Hers y Plwyf yn cael ei chadw gan Amgueddfeydd Genedlaethol

Cymru yn eu storfa yn Nantgarw. Roedd y Cyngor yn erbyn cais cynllunio gan Garej Gwalia i ddiddymu'r Cytundeb Adran 106 a oedd yn atal datblygiad ar dir y tu ôl i dai Delfryn a'r Bwythyn. Heb y cytundeb gall yr ymgeisydd gyflwyno cais cynllunio i ddatblygu'r tir er mwyn ymestyn y busnes - a fyddai'n effeithio yn andwyol ar y tai cyfagos. Bydd y Cyngor yn hyrwyddo trafodaeth gyhoeddus ynglŷn â defnydd tir Gerddi Bach yn Y Waunfawr, sef y tir gwyrdd sydd ym mherchnogaeth y Cyngor rhwng y toiled cyhoeddus ar yr A4085 yn y pentref a thai Dôl Erddi.

UN FUNUD FACH

FFYDD YR IFANC

Roeddwn wedi penderfynu na allwn fynd i'r Rhos y pnawn Sadwrn hwnnw. Ond ar y funud olaf, fe benderfynais y gallwn gyrraedd yno wedi'r cwbl. Ac roeddwn mor falch i mi wneud hynny. Hogyn o Fangor yw Rhun Murphy, ac roedd yn cael ei ordeinio'n weinidog mewn gwasanaeth arbennig iawn yn un o gapeli Ponciau. Mae yna batrwm arbennig i'r cyfarfodydd hyn, ac roedd y cyfarfod hwn yn dilyn y patrwm arferol. Roedd y cyfan yn fendithiol, a braf oedd clywed tystiolaeth y gweinidog newydd a thystiolaeth pobl eraill amdano a'i ffydd yn Iesu Grist. Roedd y gweddiâu a'r ordeinio a'r bregeth a'r cyfan yn gwneud y gwasanaeth yn un gwerth bod ynddo.

Uchafbwynt yr oedfa yn naturiol oedd yr ordeinio ei hun, gyda Rhun yn cael ei neilltuo i'r gwaith o bregethu a bugeilio eglwys Dduw. Ac eto, roedd yna uchafbwynt annisgwyl arall cyn diwedd y gwasanaeth. Mae'n arferol mewn oedfa o'r fath i bobl groesawu'r gweinidog newydd i'w gylch newydd. Ac fe wnaed hynny y tro hwn hefyd. Nid bod Rhun yn ddicithr i'w Ofalaeth newydd chwaith, gan ei fod wedi bod yno fel gweinidog dan hyfforddiant am ddeg mis. Ymhlith y rhai a'i croesawai roedd dwy ferch yn cu harddegau, ac roedd yn werth mynd yr holl ffordd i Ponciau y diwrnod hwnnw er mwyn eu clywed hwy'n estyn croeso i'w

gweinidog newydd.

Soniodd y ddwy am y budd a gawsant dros y misoedd diwethaf o fod yn y gwahanol gyfarfodydd a drefnwyd yn yr eglwys. Roedd y ddwy yn tystio i'w ffydd yn yr Arglwydd Iesu a'u hawydd i berthyn i eglwys yr Arglwydd Iesu. Pedair ar ddeg a phymtheg oed oeddent, ond roedd yn wych clywed y ddwy yn sôn mor naturiol am eu ffydd. Roedd yna adeg ddechrau'r haf pan nad oedd neb yn siŵr iawn a fyddai Rhun yn aros yno ai peidio. A meddylwch felly am rai mor ifanc yn dweud eu bod yn torri eu calon wrth feddwl na fyddai eu gweinidog yn aros efo nhw. Wrth ddod adref y diwrnod hwnnw, diolch oeddwn i, a phawb arall oedd yno rwy'n siŵr, bod Duw yn dal i weithio yng Nghymru ac yn tynnu pobl o bob oed ato'i hun.

Ac wrth feddwl am hynny, dowch i ni ddiolch am y genhadaeth arbennig sydd gennym ninnau yn y fro hon ymhlith yr ieuenctid trwy Gynllun Efe, sy'n cynorthwyo'r eglwys i gyflwyno'r Efengyl i'n hieuenctid. Gweddiwn dros Andrew Settatee, ein gweithiwr ieuenctid, wrth iddo'n cynorthwyo ni i gyflwyno'r Efengyl i'r bobl ifanc. Diolchwn am y rhai yn ein plith ninnau sy'n tystio i'w ffydd yn Iesu, a gweddiwn am i ni weld mwy cto'n dod yn ifanc iawn i'r ffydd fywiol honno sy'n newid a chyfoethogi bywydau.

JOHN PRITCHARD

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CATRTREF NEWYDD. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Mrs Dilys Jones sydd wedi dod i lawr o'r Bwlch i 3 Maes Gerddi. Dim mwy o droedio bron i 'gant o steps' i fyny ac i lawr eto, Dilys.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Nia a Kelvin, Glandŵr, ar enedigaeth Mared Lois, chwaer fach i Gwenllian. Hefyd i Nicole ac Anthony, Tan y Gaer, ar enedigaeth eu mab bach, Luke, brawd newydd i Lauren.

LONGYFARCHIADAU i Mr Robin Price, 1 Stryd Newydd, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed.

YN YR YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Simon, 1 Tai Bryn Hyfryd, sydd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain modur.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch bnawn Sul, 18 Hydref, gyda'n gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams yn gwasanaethu.

EGLWYS SANT GABREAL. Cynhaliwyd yr ŵyl Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, 4 Hydref. Yn y bore, am 9.30, cawsom wasanaeth dwyieithog o'r Cymun Bendigaid gyda'r Rheithor, y Parchedig Robert Townsend, ac yn yr hwyr, am 6.00 o'r gloch, cawsom Bregeth y Cynhaeaf gan y Parchedig Ganon Carol Evans, Llanfairfechan.

Y darllenwyr yn y gwasanaethau oedd Mrs Valeri Kressman a Miss Mcira Williams yn y bore, ac yn yr hwyr Mrs Dorothy Jones a Mrs Cassie Thomas. Cassie hefyd oedd wrth yr organ yn yr hwyr.

Diolch o galon i bawb fu'n gwasanaethu dros yr ŵyl, cafwyd cefnogaeth dda yn y ddau wasanaeth. Dymuna'r Rheithor a'r Wardeniaid ddiolch i bawb am addurno'r cglwys mor hardd ac am y

rhoddion hael o lysiau, ffrwythau a blodau dros yr ŵyl. **NOSON BINGO.** Nos Lun, 5 Hydref, cynhaliwyd noson o Bingo yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion at y raffl a'r gwobrau a diolch i bawb am eu cefnogaeth i'w gwneud yn noson mor llwyddiannus. Roedd yr elw'n mynd i Gronfa Eglwys Sant Gabreal. Diolch hefyd i Margaret ac Ann o Lanberis am alw'r rhifau ac hefyd i Sioned am werthu'r tocynnau bingo. Diolch o galon i bawb.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd

£50: Mrs Linda Locker, Glanffynnon, Llanrug; £30: Mrs Gibbard, 31 Nant y Glyn, Llanrug; £20: Mr Iolo Wyn Jones, Gardd y Rhos, Llanrug; £10: Stampiau Morrisons: Mrs Margaret Jones, 28 Dôl Elidir, Llanberis; Tocyn £10 o Erddi Fron Goch: Gee Gee's Siop Trin Gwallt, Caernarfon; £10 Tocyn Petrol: Mrs Jones, 51 Bro Rhyddallt, Llanrug; Cyw iâr: Myfanwy Roberts, Arfryn, Llanrug; Basged o ffrwythau: Mrs Sylvia Williams, Bwlch, Cwm y glo; Bwlbiau i'r ardd: Miss Glenys Parry, 18 Stryd Ceunant, Llanberis; Potel o win: Mrs Delyth Hughes, Llanberis; Bocs o nwyddau: Mrs Cynthia Owen, 23 Hafan Elan, Llanrug; Bocs o lysiau: Mrs Linda Sawrley, Arosfa, Fron Gadair, Cwm y glo; Bocs Brecwast: Guto Jones, Celyn, Deiniolen; Tin Siocled: Siop Roberts & Owen, Caernarfon; Potel o win: Kim Cullum, Llanrug; Bocs o lysiau: Mrs Gwyneth, d/o Ysgol Brynrefail; Bocs o nwyddau: Mrs Enid Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Bocs o ffrwythau: Mr Arthur Jones, 5 Trem Eilian, Brynrefail; Jwg lefrith a phowlen siwgr: Gareth Humphreys, Caernarfon; Bocs o nwyddau: Mrs Valmai Owen, Rhos Elan, Llanrug; Bocs o ffrwythau: Mrs Elizabeth

Griffith; 6 Stryd Turner, Llanberis; Bocs o nwyddau: Elaine Jones, Siop Trin Gwallt, Llanrug; Bocs o lysiau: Mrs Nellie Parry, Deiniolen (872469); Bocs o nwyddau: Mrs Elen Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug; *Book mark*: Nigel Williams, Cwm y glo; Stwff ogle da: Nia, d/o Caban, Brynrefail. Enillwyr y tocyn pêl-droed oedd: Mrs Margaret Williams, Nant Forgan a Caryl Emlyn Baillys, y ddwy o Gwm y glo. Enillydd pen-blwydd y ddoli, sef 16 Tachwedd oedd Derek Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis.

Enillwyr y raffl ar y noson oedd: Tedi Bêr: Bethan, Cwm y glo; Potel o win: Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon; Doli wedi'i gwau: Mrs Ann Jones, Llanberis. Yr Ail raffl: Bocs o nwyddau: Marian McGuinness, Llanrug; Potel o win: Myfanwy Roberts, Arfryn, Llanrug; Tegan meddal: Sharon Williams, Ynys Iago, Pentir.

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth a'ch presenoldeb.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Feed my Lambs, Caernarfon, bnawn Mawrth, 20 Hydref, i ddathlu pen-blwydd cangen Llanbeblig yn 90 oed. Croesawodd Mrs Auriel Howel bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth wedi ei drefnu ar gyfer yr achlysur. Y darllenwyr oedd Mrs Auriel Howel, Margaret Davies, Mrs Louie Jones, Mrs Joan Griffith a Mrs Katie Williams. Rhoddwyd y fendith gan, y Ficer, Y Parch. Jeffrey Hughes. Yn bresennol hefyd yr oedd Canon Roger Donaldson a'r Canon Geraint Edwards.

Ar ôl y gwasanaeth cafwyd te bendigedig wedi ei baratoi gan aelodau cangen Llanbeblig. Diolchwyd am y wledd gan Mrs. Dorothy Jones. Terfynwyd trwy adrodd y gras.

Cyfarfod nesaf: pnawn Mawrth, 17 Dachwedd.


PRIODAS. Priodwyd Sarah Rose Thomas, merch David a Margaret Thomas, Llanelli, a David G. Sellars-Welsby, mab

Amanda a'r diweddar Peter Welsby, Nant Peris, yn Eglwys Sant Maelog, Kidwelly, ar y 5ed o Fedi. Mr Gwynfor Jones oedd y Gwas Priodas a'r morwynion oedd Anna Davies, chwaer y briodferch, a Stephanie ac Erin Welsby, chwiorydd y priodfab. Morwyn Blodau oedd Lowri Davies, a'r Tywyswyr oedd Darren Davies a Jack Davies, brawd -yng-nghyfraith a nai y briodferch, a Nicholas Welsby, brawd y priodfab. Yr unawdydd yn y gwasanaeth oedd Stephanie Welsby.

Cafwyd y Brecwast Priodas yn y Gwenllian Court Hotel, Kidwelly, a treuliwyd y mis mêl yn Las Vegas a Hawaii. Byddant yn cartrefu ym Mhontyberem, Llanelli.

DIOLCH. Dymuna David a Sarah Sellers-Welsby ddiolch i'w teulu, ffrindiau a phentrefwyr am y cardiau, anrhegion a phres a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Cofiwch gefnogi
hynny fedrwch o
hysbysebwyd
Eco'r Wyddfa



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
VW BLODAU

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgiat

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

**LLANRUG
677362**

neu symudol

**07979
620996**

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

**Gwasanaethau
Garddio
Gorwel**

**01286 650761
07773 020424**

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Clanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

DIOLCHIADAU. Dymuna Martin, Delyth a'r plant, hefyd Gwenllian, ddiolch yn fawr iawn am y llu cardiau, anrhegion, blodau a'r croeso maent wedi ei dderbyn i'w cartref newydd 'Bron y Gaer', yr ochr arall i'r pentref. Diolch yn fawr iawn.

EISTEDDFOD BENTREF

Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, 20 Tachwedd, am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Da gweld cynifer o blant yn mynychu'r ymarferion canu ac adrodd bob nos Lun ac Iau o 6-7 o'r gloch.

Dalier Sylw. Dyddiad cau y cynnyrch Llên yw 6 Tachwedd a dylid anfon copiau o gystadlaethau canu ac adrodd hunan-ddewisiad i'r ysgrifennydd, Marina Jones, erbyn 6 Tachwedd.

Beirnedir y Coginio a'r Celf a Chrefft nos Iau, 19 Tachwedd o 3.30-4.00 yn y Neuadd Gymuned.

Felly, chwi garedigion yr Eisteddfod, dewch yn llu i fwynhau a chefnogi ieuenctid ac oedolion ein pentref.

YSGOL SULO BOSRA.

Croesawyd aelod bach newydd arall i'n plith, sef Liam - rydym yn hynod falch o gael 20 o aelodau ffyddlon erbyn hyn. Gan ei bod hi'n wyliau Hanner Tymor yr ysgol, ni chynhelir Ysgol Sul tan 8 Tachwedd. Y mae aelodau Pwyllgor Apêl Adnewyddu'r Capel yn hynod falch fod y to wedi'i adnewyddu ac y bydd gwaith pellach i wella'r adeilad yn cael ei wneud yn fuan.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd: Mrs Annie Hughes a Carol Jones, Yr Ysgol Gymuned.

Y mae'r catalog Webb Ivory yn nwylo aelodau'r Pwyllgor. Catalog gydag amrywiaeth o anrhegion Nadolig ynghyd â nwyddau amrywiol ydyw hwn. Bydd rhan o elw'r gwerthiant yn mynd at gostau rheoli'r Neuadd. Diolchir i Phyllis am ofalu am y weithgaredd hon yn flynyddol. Dylid ei anfon yn ôl i Phyllis erbyn dechrau Tachwedd.

Gweithgaredd nesaf y pwyllgor yw Noson Wasael ar nos Iau, 17 Rhagfyr am 6.00 o'r gloch. Bydd darlleniadau, canu carolau, eitemau gan blant yr ysgol a pwnsh a mins pci ar gael ac fe fydd hamper Mawr Nadolig yn cael ei werthu fel raffl. Mynediad £2 i oedolion.

Atgoffir aelodau'r Pwyllgor y bydd pwyllgor i gwblhau trefniadau'r Noson Wasael ar 7 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sydd

wedi bod yn sâl a gobeithio y bydd pawb ohonoch yn ddigon lwcus i osgoi'r Ffliw Moch yr hydref hwn.

GAIR O GYDYMDEIMLAD.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ac o Fron Castell, Bangor, yn 40 mlwydd oed bu farw Marie Griffiths, mam annwyl Darren, merch, chwaer a modryb addfwyn. Ein cydymdeimlad llwyrfa â chwi oll fel teulu.

CYLCH TI A FI. Mae'r pentref yn ymfalchio o gael cychwyn Cylch Ti a Fi yn y Neuadd Gymuned bob pŵnau Iau, o 1.30 hyd 3.30 yn ystod dyddiau ysgol. Cofir tâl o £1 y plentyn a bydd cyfle i'r rhieni gael cymdeithasu a chael paned. Bydd cyfle i'r plant gael cydchwarae a gofynnir i'r rhieni ofalu am ffrwyth i'w plentyn.

Cynhaliwyd Disgo ar nos Wener, 26 Medi, a gwnaed elw sylweddol o £185 tuag at archebu teganau ac offer i'r Clwb. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd.

Diolch arbennig i Selwyn Griffith, Llanrug, am gael benthg yr offer disgo; i Anti Jean am ofalu am y raffl, ac i Glesni a Darren a'r ieuenctid parod eraill am bob cymorth. Mac croeso cynnes i unrhyw blentyn cyn oed ysgol o'r pentref a thu allan ymuno â'r Cylch.

YSGOL GYMUNED.

Profiad Gwaith. Croesawyd Catrin Jarvis a Daniel Morris o

Ysgol Brynrefail am wythnos o brofiad gwaith rhwng 28 Medi a 2 Hydref.

Gwasanaeth Boreol. Daeth Mr Andrew Settatee i gynnal gwasanaeth fore dydd Llun, 5 Hydref.

Ymweliadau Addysgol. Aeth disgyllion Blwyddyn 5 a 6 i ymweld â Phlas Mawr, Conwy, ddydd Mawrth, 6 Hydref, fel rhan o'u gwaith thema y tymor hwn.

Dydd Iau, 15 Hydref, trefnwyd i fynd â dosbarth 0, 1 a 2 i gymryd rhan mewn Gweithdy Ysgol amser oes Fictoria yng Nghastell Penrhyn. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiadau yn ystod y ddau ymweliad addysgol yma.

Rhaglen Cyw. Roedd bwrlwm yn nosbarth y Babanod fore Mercher, 7 Hydref, gan fod Cwmni Da yma yn ffilmio gwahanol eitemau ar gyfer eu darlledu ar raglen deledu Cyw ar S4C rhwng mis Ionawr a Mawrth 2010.

Ymgyrch Cancr y Fron. Trefnwyd fod pawb yn dod i'r ysgol yn gwisgo unrhyw beth pinc ar ddydd Gwener, 23 Hydref. Yn ogystal roedd yn bosibl i'r plant brynu cacennau pinc yn ystod egwyl y bore. Bydd yr elw yn mynd tuag at yr ymgyrch deilwng hwn.

CRONFA PENSIYNWYR.

Enillydd mis Medi oedd Mrs Janet Jones, 12 Bryn Tirion, gyda'r rhif 29.

Cinio Nadolig y Pensiynwyr.

Eleni byddwn yn mynd i westy'r 'Grand' yn Llandudno ddydd Sadwrn, 5 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 10.30 o'r gloch a bydd cyfle i wneud

ychedig o siopa ar ôl cyrraedd. Yna bydd y bws yn cludo pawb i'r gwesty am ginio Nadolig erbyn 1.30 o'r gloch.

Os oes unrhyw bensiynwr o'r pentref sydd heb dderbyn gwahoddiad ond yn awyddus i ddod, mae croeso i chwi gysylltu â Mrs Janet Ash, Commercial (871265) i roi eich enwau erbyn 2 Tachwedd os gwelwch yn dda.

TRIP I IKEA. Mae trip wedi ei drefnu i fynd i 'Ikea' yn Warrington ddydd Sadwrn, 14 Tachwedd. Y gost fydd £10 a gobeithir rhoi unrhyw elw i gronfa'r Ysgol. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr ysgol am 7.30 y bore. Mae ychedig o le ar ôl ar y bws. Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich enwau i Jean (871993) os gwelwch yn dda.

DIOLCH. Dymuna Eric (Gil) ddiolch i bawb am y dymuniadau gorau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar a diolch i bawb am gadw'r parti a drefnwyd iddo yn Syrpreis go iawn!

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd i blygu'r Eco ar nos Iau, 1 Hydref. Diolch i'r rhai ffyddlon a ddaeth i'w blygu a gorffen yn braf erbyn 7.00 o'r gloch. Diolch hefyd i Wasg Dwyfor am ddod â'r Eco i'r Neuadd yn gynnar yn y pŵnau.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriad a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



Rhys a Lauren, Emyr ac Alex, Gerallt, Ryan a Katie, Elliw, Efa, Aaron, Cadi, Robert a Gethin Alun, Gruffydd a Mam ac Olewen a Mam.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redcg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 072020 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant 3420271

Mae'n rhaid i mi starad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

O'R CYNGOR

Dyna flwyddyn arall wedi mynd i rhywle. I ble mae'r amser yn diflannu, dyna ddirgelwch, ond mae'n ddigon gwir, wrth fynd yn hŷn mae'r amser yn mynd yn gynt, ofnadwy de!

Fodd bynnag, dros y misoedd ers fy adroddiad diwethaf mae tipyn wedi ei gyflawni o amgylch yr ardal, ond mae cryn tipyn i'w wneud eto. Diolch i'r drefn, mae y rhan fwyaf o'r gwaith, fodd bynnag, wedi ei raglennu, felly fel hyn y mae pethau ar y foment.

Ardal Saron

Fel yr eglurais yn fy adroddiad blaenorol mae cais wedi ei wneud i'r Cynulliad Cenedlaethol am grant i'n galluogi i wneud y gwaith sylweddol i ail greu system ddraenio newydd i'r dŵr wyneb sy'n rhedeg o'r tir sy'n amgylchynu ardal Saron. Mae'n amlwg i bawb fod y cais wedi bod yn llwyddiannus gan fod y gwaith wedi dechrau yn ystod wythnos gyntaf Hydref, a bydd yn mynd ymlaen am rai wythnosau.

Bydd y gwaith yma yn rhoi tawelwch meddwl i drigolion Saron bod ei cartrefi yn ddiogel o beryglon llifogydd ar amseroedd o law trwm.

I'r rhai sydd â diddordeb, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am 80% o gost y gwaith. Rhaid hefyd ymestyn diolch i staff Cyngor Gwynedd am y dyluniad a'u dyfal barhad i sicrhau bod y cais am arian yn un llwyddiannus.

Heb godi mwy o fwganod ynglŷn â phroblemau llifogydd, mae eisiau dal i gadw llygaidd barcud ar Afon Caledfyrdd yn ardal Penrhos. Er bod gwaith i lanhau a dyfnhau tipyn ar yr afon wedi ei gario allan, yn ôl fy nealltwriaeth i nid yw'r cynllun i ehangu gorlifdir i'r afon wedi symud ymlaen rhyw lawer. Rhaid symud ymlaen yn fuan ar hyn.

Ffordd Crawia

Rhan arall o'r cynllun atal llifogydd o amgylch y pentref oedd cael gwared â'r dŵr oedd yn achosi cryn drafferth yng nghyffiniau'r ardal o'r Cae Pêl Droed hyd at yr ysgol. Mae'r gwaith i atal y llifogydd yma wedi ei gwblhau'n ddiweddar, gyda gwteri a system ddraenio newydd wedi eu gosod yn gyfagos i'r arwydd 30myh ar ffordd Crawia. Rwyf ar deall fod y gwaith yma wedi gwneud i ffwrdd â'r problemau yn gyfangwbl. Diolch i pawb a fu'n gweithio mor galed i gyflawni'r gwaith yma.

Erw Bian

Mae cryn broblem gyda dŵr ar y briffordd yn Erw Bian, ac mae hyn yn achosi trafferthion i'r preswylwyr.

Mae cynllun ar y gweill i osod cwteri o flaen y rhes i dynnu'r dŵr a'i arwain i'r system ddraenio bresennol. Gyda'r sefyllfa ariannol a chwtogi ar y gyllideb cyn belled ac y mae prosiectau newydd yn y cwestiwn, bydd rhai pwyso am amserlen i gwblhau'r gwaith yma.

Cynllunio

Mae pawb, mae'n debyg, yn cofio'r pryderon a godwyd pan ddaeth cais i law i adeiladu nifer o dai ger Ffordd Tre'r Gof. Roedd ofnau'n codi oherwydd y problemau enfawr gyda charthffos yn gorlifo o amgylch yr llecyn tir. Yn ogystal â hyn roedd teimladau cryf bod ffiniau y pentref yn debygol o gael eu ymestyn i'r cefn gwlad godidog sy'n amgylchynu pentref Bcthel heb achos teilwng. Roedd hyn ar drael canol y pentref sydd heb orffen cael ei ddatblygu, gyda hawliau yn barod wedi eu caniatáu i adeiladu 19 o dai, a bod posibl adeiladu 24 arall o fewn ffin newydd y pentref sydd, wedi ei ddiffinio gan Gynllun Datblygu Unedol newydd Gwynedd.

Gan fod y cais yma wedi ei ohirio ar fy nghais gan y Pwyllgor Cynllunio, fe benderfynodd yr ymgeisydd apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol i geisio cael yr hawl i adeiladu. Fe wrthodwyd yr apêl ac roedd penderfyniad yr Arolygwr yn bendant y buasai'r datblygiad yn ymestyn ac yn amharu yn ormodol ar gefn gwlad agored. Hefyd roedd o'r farn fod digon o ganiatad cynllunio yn bod yn barod at anghenion y pentref.

Rhaid hefyd, wrth gwrs, gofio fod dros hanner trigolion y pentref wedi arwyddo deiseb yn gwrthwynebu'r datblygiad. Diolch i chwi oll am eich cefnogaeth, mae'n gwneud y gwaith yn bleserus iawn.

Cynllun Diogelwch Ysgol

Mae'r gwaith i gyflawni llefydd parcio newydd ar gyfer parcio tymor byr i ollwng a chodi'r plant o weithgareddau'r ysgol wedi ei gwblhau dros gyfnod gwyliau'r haf. Mae hyn wedi plesio, yn ôl pob golwg, gan fy mod yn derbyn nifer o sylwadau am sut mae'r gwaith wedi hwyluso pethau.

Drwy gario allan y gwaith yma, mae'r ddwy gyffordd sy'n arwain i Bro Rhos wedi eu cwtogi a llinellau melyn wedi eu gosod. I orffen y cynllun llinellau melyn, mae gorchymyn deddfwriaeth ar y ffordd i gael rhoi llinellau i lawr hefyd ar y gyffordd ger St. Teilo, sy'n arwain i Saron. Mae hyn, wrth gwrs, oherwydd y parcio anghyfrifol sy'n digwydd ar y gyffordd ac yn achosi peryglon mawr i rai sydd eisiau dod allan i'r briffordd.

Rwyf hefyd wedi cael rhai ymholiadau pam fod y safle bws wedi ei symud. Y rheswm, wrth gwrs, yw na fuasai'n ddiogel nac yn ymarferol i gael bws yn tynnu i mewn i ganol moduron sy'n codi a gollwng plant. Mae synnwyr yn hyn.

Cyn belled ac y mae'r safleoedd parcio newydd yn y cwestiwn, dyma fydd y gwaharddiadau ar barcio - Rhwng 8.00 bore a 5.00 prynhawn o ddydd Llun - Gwener; Aros wedi ei gyfyngu i dri-chwarter awr yn unig. Bydd hyn yn dod i rym yn fuan. Felly byddwch yn wyliadwrs!! Tu allan i'r oriau uchod ac ar benwythnosau a gwyliau ysgol - yna parcio unrhyw dro.

Arwyddion 30 a 40 milltir yr awr

Arwyddion 30 myh. Wedi eu gosod bob ochr i bentref Seion. Diolch unwaith eto i'r pentrefwyr am roi pwysau parhaol ar y cyngor, unwaith eto yn gwneud fy ngwaith yn

bleserus. Hefyd arwyddion 40myh wedi eu gosod ger Erw Bian. Mae hyn wedi arafu rhyw ychydig, o leiaf, ar y gyrru afresymol oedd ar y rhan yma o'r B4366 ac hefyd drwy bentref Seion.

Cremlyn

Rwyf wedi cael cadarnhad o'r diwedd bod y gwaith dacluso a chreu llefydd parcio yn mynd i ddigwydd. Er bod y dyluniad wedi ei wneud gryn amser yn ôl, yn anffodus nid oedd yn addas oherwydd fod y safle yn rhan o erchwyn cynnal y ffordd fawr. Be sydd yn awr yn cael sylw ydi fel sy'n cael ei ddefnyddio i greu y mannau parcio ym Mhen y Gwryd. Rwy'n gwir obeithio bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau yn fuan.

Parcio Bro Rhos

Mae'r cais o dan Gynlluniau Gwelliant Amgylcheddol Adran Dai i greu mannau parcio ar y llain tir dros y ffordd i rifau 37-42 Bro Rhos wedi bod yn araf ddrigo'r ysgol o gynlluniau i'w cwblhau. Yn ôl y pwyntiau a ddyranwyd ar ddiwedd Ebrill 09, bydd y cynllun yma yn gymwys i'w gyflawni yn ystod y 18 mis nesaf.

Gwaith ychwanegol

Mae'r briffordd trwy'r pentref i'w hailwynebu. Reodd bwriad i gwblhau hyn eleni ond, yn ôl pob golwg gyda'r toriadau a cynlluniau yn llithro mewn amser, credaf mai yn ystod 2010 y bydd y gwaith yma yn digwydd - a dyna hunllef gyda'r drafndiaeth.

Nid y briffordd yw'r unig fan eisiau sylw, gan fod nifer o stadau y pentref eisiau sylw difrifol, eto toriadau sy'n codi i'r wyneb pan fydd gwaith fel hyn yn cael ei drafod.

Bydd newyddion yn ystod y misoedd nesaf mwyaf tebyg am lwybr y ffordd osgoi newydd fydd yn rhedeg o Griffiths Crossing i'r ochr draw i'r Bontnewydd. Mae cryn oblygiadau ar y pentref gyda'r llwybr yma, oherwydd os bydd yn rhedeg heibio i Dyddyn Hen am Bont Rug, yna does dim cwestiwn na fydd y traffig trwm yn cynyddu drwy'r pentref. Cawn weld be ddaw.

Rhaid rhoi taw arni neu mi fydd y Golygyddion yn chwyrnu am fy mod yn rhy hirwyntog.

Wrth gau felly hoffwn ymestyn fy niolchiadau i chwi oll am eich cefnogaeth a'ch amynedd, yn enwedig pan mae pethau i'w gweld yn hir ac ymhell o afael.

HUW PRICE HUGHES
Cynghorydd Plaid Cymru
dros Bethel a Seion



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'die'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)




BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

HEN LUNIAU O LANBERIS



'Rozwn i'n meddwl mai'r 'Castle' oedd hon ac nid yr 'Elephant and Castle'! Gyda llaw, oes rhywun yn cofio prwy oedd C G Barrios?



Angylion y 50au: Cefni: Janet Burford, Rita Williams, Sheila Foulkes, Doris Prichard, Heulwen Owen, Eifiona Parry, Barbara Owen. Blaen: Gwawr Madog, Glenys Rowlands, Valmai Davies, Joan Roberts



Fflot Dobadarn yng Ngharnifal pa flwyddyn?



Heddweision Llanbêr?

Cefni: John Huws Co-op, Glyn Penbryn, Huw Dafad ac Oen, Dic Dolbadarn. Blaen: Twm, Robert Insizwans R. H. Owen, John Rowlands.

CYFEILLION YSBYTY GWYNEDD

Addangosfa Gosod Blodau gyda darlleniadau a barddoniaeth
'NADOLIG TUDURAIDD'
gyda 'Flower Ladies' o Sir Gaer – Theatr Addysg, Ysbyty Gwynedd.
23 Tachwedd, 2009 am 7.30 y.h.
Tocynnau: £7, yn cynnwys lluniaeth. Tocynnau ar werth ar Fwrdd
Gwerthu'r Cyfeillion. Yn Ysbyty Gwynedd ar Ddydd Mawrth a Iau

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL



RYGBI - BECHGYN DAN 14

Y bechgyn yn colli 26-38 mewn gêm gyffrous iawn yn erbyn Ysgol Bodedern. Iolo Hughes a Huw Owen yn troi dau gais yr un. Pob lwc y tro nesa, hogia.



HOCI - GENETHOD DAN 16

Y genethod yn colli 1-2 mewn gem darbi gyffrous ac agos iawn yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen. Heledd Roberts sgoriodd yr unig gôl i Frynrefail. Dalirwch ati a phob lwc y tro nesa, genod.



Ar Ben Arall y Lein

Mae pethau'n araf iawn ar yr y tair afon fel, wrth gwrs, y buasech yn ddisgwyl gyda'r prinder dŵr dros yr wythnosau diwethaf. Tydi'r 'sgotwrs' ma'n anodd i'w plesio 'dwch! Ac i wneud pethau'n waeth mae'r broblem o'r algai glas/wyrdd yn nyfroedd Padarn yn gwaethygu gan lygru, nid yn unig y llyn, ond hefyd y Seiont hyd at Gaernarfon.

Mae grŵp wedi ei sefydlu gan Asiantaeth yr Amgylchedd i drafod y mater yma - a fydd yn mynd dan yr enw Fforwm Padarn - a dyma'r rhai sydd wedi cael gwahoddiad i cistedd ar y Pwyllgor: Y Cadeirydd: fydd Alun Ffred Jones, Aelod Cynulliad Cyngor Gwynedd; Surflines; First Hydro; Cyngor Cefn Gwlad; Dŵr Cymru; Cyngorydd Lleol; Cyngor Cymuned Llanberis; Cymdeithas Bysgota Seiont Gwryfai a Llyfni a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Rydym ni, fel 'sgotwrs' a pherchnogion hawliau eang ar Lyn Padarn a'r Afon Seiont, yn gwir obcithio nad siop siarad arall fydd hwn, achos yn ôl y nodiadau rwyf i wedi eu cael

gyda'r gwahoddiad, mae'n dweud fod eisiau gwneud o leiaf ddwy flynedd o waith i gwblhau 'mantolen maetholion', fel bod darlun cynhwysfawr o gyfansoddiad y llyn ar gael. Dwy flynedd! Mae gennyf ofn os na fydd rhywbeth yn cael ei wneud ar frys i atal y llif diddiwedd o ffosffadâu i'r dyfroedd, yna mae pethau ar ben.

Mae'n ddigon gwir dweud mai Cymru yw 'Gwlad y Pwyllgorau' - digon o siarad a dim llawer o weithredu.

Cefais ddarlun eglur iawn o hyn rai blynyddoedd yn ôl pan yn ymweld â chynlluniau i ddatblygu pysgodfeydd a oedd yn mynd ymlaen yng Ngweriniaeth Iwerddon, cynllun yn costio dros 11,000,000 Euro a dim ond tri swyddog oedd yn ei rhedeg, a llwyddiannus iawn oedd hefyd.

Pan ddaeth rhyw £3,000,000 yma i Gymru ar gyfer datblygu pysgodfeydd, roedd pwyllgorau di-ri yn cael eu sefydlu, ac i ble aeth yr arian? wel ychydig iawn, iawn ddaeth i'r rhan yma o'r byd! Gobeithio y bydd y fforwm newydd 'ma yn rhywbeth

gwahanol. Mi geisiwn ni ein gorau i wneud hyn yn bosib.

Gyda'r tymor wedi gorffen mae'r gwaith yn dechrau ar gasglu grawn eog at stocio tymor 2010. Mae hyn eleni, i fyny i'r aelodau sydd wedi cael trwyddedau arbennig gan Asiantaeth yr Amgylchedd at y gwaith yma. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud i hyn weithio i ddangos y gall y clwb gario allan waith o'r fath. Dyma'r ffordd ymlaen, sef gadael i'r clybiau gymryd mwy o gyfrifoldebau i redeg eu dyfroedd eu hunain, yn lle gorfod gofyn am ganiatadau parhaol a neidio drwy lefelau di-ri o fiwrocratiaeth sy'n gwau drwy gilydd cyn belled ac mae ein heiddo yn y cwestiwn.

Bydd y grawn a gesglir yn cael ei ddeori yn Nolgellau yna ei gludo yn ôl i'r fro i gael ei ail hadu fel eogiaid bychain o ben Rhacadr Mawr Llanberis cyn belled â Llyn Llyn Du'r Arddu. Wedi'r cwbl, dyma'r unig ran o ddalgylch y Seiont sydd ddim

yn cael ei heintio gyda arllwysion carthffos.

Mae amser y Pwyllgor blynyddol yn agosau, felly cofiwch anfon eich sylwadau neu syniadau at sut i wella pethau yn y dyfodol, Rhaid cael rhain i law cyn diwedd Tachwedd.

Ol-nodyn i godi calon! Mae cryn dipyn o eogiaid yn y Fenai, ac maent yn werth eu gweld yn neidio ger y Seiont. Yr amser i gael sioe yw rhyw 4 awr ar ôl penllanw, a do mi gefais un o'r rhai a oedd wedi stwffio i'r afon ar ddŵr isel! sgodyn â llau môr arno. Yn lle? Wel, gyda phluen yn Cwawia. Mae Jim Carr, Llanrug, wedi fy nghuro gyda un am 10 pwys, a dyna'r cwbl yn y bythefnos a fu.

Dymuniadau gorau hefyd i Danny Humphreys, Bethel, sydd wedi cael llawdriniaeth lwyddiannus yn Manccinion. Adferiad llwyr rwan, yn barod am y tymor nesaf.

HUW PRICE HUGHES

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnaun - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn greu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR

**-Cymhwyster-
BOSCH**

**i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant***

**Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr**

* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiâu sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

FIAT	PEUGEOT	BMW	SKODA
ABS	BRÉCS	CLUTCHES	TYRBO
AIR CON	GWASANAETH	BATRIS	SAAB
VOLVO	MERCEDES		

MEWNFORIO YR ALMAEN SWEDEN
UNION OLWYNION CAMBELTS TRYDANOL

CHWARAEON

HA WÊ CHWI GLYBIAU!

Yn oes y cyfathrebu cyflym, daeth y wê yn ran annatod o'n bywydau. Yma ym mro'r Eco bu nifer o'n clybiau chwaraeon a chymdeithasau yn brysur yn llunio eu gwefannau ers tro. Mae yn ffordd gyflym o rannu gwybodaeth gyda'r llu o 'wylwyr cadair', a hefyd rhoi sylw i'r nifer o noddwyr hael sy'n cefnogi'r clwb/ gymdeithas.

Erbyn hyn mae gennym wefan genedlaethol ein hunain yn yr iaith Gymraeg sef Golwg 360. Sefydlwyd y wefan wedi'r ddadl hir dros bapur dyddiol Cymraeg. Mae'r wefan yn dosrannu i sawl cyfadrn: newyddion, chwaraeon, celfyddydau.... Yr un adran yr wyf eisiau cyfeirio ati yw'r rhan LLE PAWB. Yn y rhan yma o'r wefan gall unigolyn, clwb, cymdeithas, grŵp roc... sefydlu mangre iddo'i hunan.

Ar ran clybiau'r fro cysylltais â chyfarwyddwr Golwg, sef Dylan Iorwerth, i holi sut mae cael mangre ar y wefan. Fel y bu'n hysbys, bu ambell broblem yn ystod y misoedd cynnar ond, yn ôl Dylan, mae'r sylfaen yn awr yn ci le.

Yn fy marn i mae slot LLE PAWB yn rhoi cyfle gwyh i unrhyw glwb. Yn wir, mae cyfle i wahanol gynghreiriau ymuno. Beth ellir ei roi ar y wefan? Gwybodaeth, calendr, digwyddiadau, ond hefyd rhywbeth llawer iawn gwell. Trwy gysylltu gyda gol@golwg.com gellir danfon lluniau, neu hyd yn oed fideo, o gcmuau penodol. Dyma gyfle

POB LWC WA!

Erbyn y rhifyn nesaf bydd Llanrug wedi ymlwybro draw i'r Bala dirion ddeg ar gyfer gêm Cwpan Cymru. Unwaith eto nid yw'r dewis wedi bod o'u plaid. Serch hynny bydd yn dipyn o brofiad, ac o gofio cefnogaeth y Bala, cyfle i wncud arian. Buasai hon yn chwip o fuddugoliaeth i dim Eithin Duon.

Bydd angen ysbryd gcmuau Llanelli a Bangor. Tybed a fydd Llanrug yn meddwl mai hyn fydd eu dyfodol hwy. Vchydig o dymhorau yn ôl rodd Bala yng Nghynghrair Cylch Wrecsam, yna trwy'r cynghreiriau i'r Adran Genedlaethol. Pob lwc i'r hogia.

Er eu perfformiadau simsan mewn gcmuau cynghrair hyd yn hyn bydd Llanberis yn caisio cynnal y traddodiad 'tim cwpan' wrth groesawu tim corfforol Rhyd-y-mwyn yn nhrydedd rownd Tlws F.A. Cymru.

gwyh i gofnodi digwyddiad arbennig, gôl arbennig, sgôr arbennig, cyflwyniadau neu rhywbeth mor syml a danfon y canlyniad i mewn. Gellir hefyd ychwanegu adroddiad byr o'r gêm. Dyma gyfle gwyh yn fy marn i ble gall clybiau ehangu maes diddordeb. Dychmygwch pe buasai rhywbeth fel digwyddiad y 'bêl lan-y-môr' wedi digwydd yn un o'r gemau lleol. Efallai fod rhywbeth yr un mor annisgwyl wedi digwydd. Dyma gyfle i rannu'r profiad.

CHWYTHA'R BIB 'NA

Cŵn ar y cae. Dau gefnogwr yn ymladd. Gwraig yn cerdded pram ar draws y cae. Plant yn dod i nôl pêl o gêm gyfagos. Gormod o beli ar y cae. Ffraco rhwng aelodau o'r un tim. Goleuadau yn diffodd. Llumanwr clwb yn sylcio. Chwaraewr yn smocio yn ystod gêm.

Y rhain i gyd, ar wahân i anafiadau, wrth gwrs. Nifer o resymau pan y bu raid i mi atal y gêm tra roeddwn yn dyfarnu. Beth i'w wneud ynglŷn ag amser ychwanegol felly? Rhaid cofio, yr adeg hynny mai'r dyfarnwr oedd yr unig farnwr ynglŷn â'r mater. Cofiaf i mi ofyn i rai o'r dyfarnwyr profiadol am eu barn. Os cofiaf yn iawn roedd cryn gysondeb. 'Adia ddau funud ar ddiwedd y gêm!' A dyna fyddai yn digwydd yn y mwyafrif o achlysuron. Hefyd, nid oes gennyf gof o amser ychwanegol ar ddiwedd yr hanner cyntaf - dim ond y dau funud ar y diwedd. O gofio natur y cacau gwledig a'r bêl yn diflannu dros y ffordd neu gloddiau nes i ryw 'Wali' lleol fynd i nôl y bêl, collwyd sawl munud. Buasai'n ddiddorol gwybod am faint yn wir rodd y bêl ar dir y chwarae. Yn sicr, llawer llai na'r 90 munud swyddogol. Yna'r amser am yr holl daflu mewn, gosod y mur amddiffynnol.... (Cofiaf un Sadwrn gwyntog ar Beach Rd., Bangor, pan chwythwyd tair pêl i'r môr. Pan acth y dryddedd bêl i'r tonnau roedd yn rhaid i ddau dynnu sgidiau a sanau a dilyn y bêl i'r dŵr. Hon oedd y bêl olaf!)

Ar lefel lleol nid oes modd i ddyfarnwr gadw cownt manwl, ac mae'n siŵr mai adio munud ar hap yw'r drefn gan amlaf. Ar y lefel uchaf, dylai'r awdurdodau gopio rygbi a stopio'r cloc ar orchymyn y dyfarnwr. Mae hyn yn lleihau'r amheuaeth.

Yna'r 'bêl lan y môr'. O gofio

CAPTEN TÎM PÊL-FASGED CYMRU - O FETHEL



Dyma Gerallt yn derbyn bathodyn gan Capten arferol Cymru am iddo gael ei ddewis yn Gapten ar gyfer gêm Iwerddon.

Cafodd Gerallt Jones, disgybl yn Ysgol Brynrefail, anrhydedd fawr yn ddiweddar gan iddo gael ei ddewis yn Gapten ar dim pêl-fasged dan 16eg Cymru yn eu gêm yn erbyn Iwerddon yn Nulyn. Colli fu eu hanes bryd hynny ond rhaid cofio i'r Gwyddelod lwyddo i gyrraedd pencampwriaethau Ewrop eleni, ac wedi bod gyda'i gilydd ers

sawll blwyddyn. Mae Gerallt wedi bod yn ymarfer gyda sgwad Cymru ers rhai misoedd gan gael ei gap cyntaf a sgorio'i bwyntiau cyntaf yn erbyn yr hen elyn, Lloegr. Mae sgwad Cymru yn anelu i gyrraedd Ewrop y flwyddyn nesaf, a gobaith Gerallt yw y bydd yntau yn un o'r sgwad o 12 fydd yn cael eu dewis. Pob lwc iddo!

lleoliad y bêl honno dylai'r gêm fod wedi stopio - neu hyd yn oed Reina roi ei droed arni neu trwyddi. Gwelais un adroddiad fod y swyddogion yn meddwl fod y bêl iawn wedi gwyro oddi ar yr amddiffynnwr. Lle i ddefnyddio technoleg, efallai? (Should have gone to Specsavers!)

Gyda llaw, 'play on' fyddai hi bob tro pan fyddai'r bêl yn gwyro i bob cyfeiriad oddi ar y wren deleffon ar draws cae Mountain Rangers yn Bont Erstalwm. Sôn am ddiawlio. 'Come on, ref!'

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL



Y genethod yn trechu Ysgol Gyfun Llangefni mewn gem Cwpan Eryri/Cymru o bedair gôl i ddwy. Y goliau pwysig yn cael eu sgorio gan Mari Lois Regan (x3) a Mari Gibbard. Pob lwc yn y rownd nesa, genod, yn erbyn unai Ysgol Aberconwy neu Ysgol Tryfan.

GEMAU PEL DROED

Pnawn Mercher - 23 Medi

Gem Gyfeillgar - Bechgyn Dan 12

Ysgol Brynrefail 4 - 2 Ysgol Syr Hugh Owen

Sgorwyr: Peter Manssor (2); Ryan Owen; Cai Owen

parhad ar dudalen 19